



Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

PROSIECT PONTBREN



PROFIADAU'R FFERMWYR A GWERSI A DDYSGWYD

Awst 2013



Tabl Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	3
Cyflwyniad	9
Dull	12
Adolygiad Llenyddiaeth	13
Canlyniadau	16
Manteision a Phroblemau	17
Effeithiau'r Arolwg Busnes Fferm	27
Cynllunio Olyniaeth Fferm	29
Newid Ymddygiad ac Agwedd	30
Effeithiau Gweithgareddau Ymchwil a Datblygu	35
Effaith Polisi	37
Casgliadau	43
Cyfeiriadau	46

RHESTR O ACRONYMAU

LIC	Llywodraeth Cymru
RhDG	Rhaglen Datblygu Gwledig
PAC	Polisi Amaethyddol Cyffredin
AWC	Arsyllfa Wledig Cymru
FWPS	Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd
CCRI	Y Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymunedau
FRMRC	Y Consortiwm Ymchwil Rheoli Perygl Llifogydd
CGGC	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion gwaith ymchwil a wnaed gan Arsyllfa Wledig Cymru yn 2013 i werthuso profiadau ffermwyr Pontbren yn eu hymdrechion i wella cynaliadwyedd eu gwaith rheoli fferm dros y deuddeng mlynedd diwethaf, a'r manteision a sicrhawyd trwy'r gefnogaeth a gynigiwyd iddynt gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

Mae Grŵp Pontbren yn cynnwys deg teulu cyfagos sy'n ffermio bloc cyffyrddol mil hectar yn nalgylch Nant Pontbren ger Llanfair Caereinion yng ngogledd Powys.

Mae eu hamcanion yn cynnwys:

- Rheoli fferm cynaliadwy (nawr ac ar gyfer y dyfodol).
- Lloches well i dda byw
- Arallgyfeirio busnes fferm
- Integreiddio gwaith amaethyddiaeth a rheoli coetir yn fwy effeithiol
- Creu cynefinoedd bywyd gwyllt
- Cynhyrchu pren i'w ddefnyddio ar y fferm ac ar gyfer prosesu gwerth ychwanegol
- Gwella tirwedd yr ucheldir

Maent wedi ceisio bodloni'r amcanion hyn trwy:

- Leihau stoc
- Gwella'r amgylchedd – plannu lleiniau lloches, perthi newydd a chreu rhwydwaith o byllau.
- Cynhyrchu pren a chynhyrchion coed gwerth ychwanegol, gan gynnwys coed tân, sarnau sglodion coed ac eginblanhigion coed a dyfwyd yn lleol o darddiad cynhenid.
- Marchnata arbenigol o gynnyrch fferm trwy grŵp cynhyrchwyr Pontbren, mewn marchnadoedd ffermwyr a thrwy gontract ag archfarchnad.
- Monitro busnes drwy'r Arolwg Busnes Fferm.

Hefyd, gwnaed amrywiaeth o waith ymchwil gyda'r ffermwyr yn ystod y deuddeng mlynedd diwethaf i werthuso effeithiau'r newidiadau maent wedi eu gwneud. Mae hyn yn cynnwys gwaith ymchwil gan y Consortïwm Ymchwil Rheoli Perygl Llifogydd (FRMRC); gwaith a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ar ansawdd dŵr; prosiectau Ymchwil a Datblygu ac ysgoloriaethau PhD niferus, gan gynnwys nifer o werthusiadau gwyddor gymdeithasol a pholisi.

Yng ngoleuni'r manteision lluosog a ddaeth i'r amlwg, darparodd Llywodraeth Cymru (LIC) gymorth ariannol i'r prosiect trwy daliadau dadstocio a thaliadau atodol i'r Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd (FWPS) a Chynlluniau Grantiau Coetir.

Defnyddiwyd y cyllid hwn gan Lywodraeth Cymru i roi arian cyfatebol i grant Loteri Enfys, a ddarparodd y cyllid ar gyfer prif gyfnod y prosiect¹.

¹ Rhoddir rhagor o faynlion ar y cyllid yn nhabl 4.1 yn adran 4.

Amcanion Ymchwil

Gan fod elfen ddadstocio Prosiect Pontbren wedi dod i ben bellach, comisiynodd LIC werthusiad pellach i ddarganfod effeithiau'r prosiect o safbwynt y ffermwyr ac i nodi gwersi polisi allweddol i'w dysgu ar gyfer y RhDG nesaf a'r diwygiadau cyfredol i'r PAC. Er enghraifft, pa un a ddylid gwneud diwygiadau technegol i gynlluniau coetir presennol Glastir i'w gwneud yn fwy addas at y diben, neu a ellid defnyddio profiadau ffermwyr i hysbysu dulliau cefnogi RhDG ehangach ar gyfer y sector amaethyddol. Dyna ddiben yr adroddiad hwn a gyflawnwyd gan AWC; nod y gwerthusiad hwn yn benodol yw:

- Darganfod beth mae'r ffermwyr yn ei feddwl fu manteision a phroblemau'r prosiect iddyn nhw – gwersi maen nhw wedi eu dysgu neu y maent yn meddwl y dylai eraill eu dysgu.
- Ystyried 'newid ymddygiad' y ffermwyr a gymerodd ran yn ystod yr holl gyfnod ers dechrau'r prosiect yn 2002, gan adeiladu ar Adroddiad y Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymunedau (2008).
- Ystyried a yw prosiect Pontbren wedi cael unrhyw effaith ar 'olyniaeth' mewn strwythur ffermydd o ran newidiadau i bennaeth y daliad neu sut y trefnir ffermydd.
- Darganfod sut mae safbwyntiau ac agweddau ffermwyr Pontbren wedi newid yn ystod oes prosiect Pontbren.
- Cofnodi safbwyntiau ffermwyr ar y gweithgarwch Ymchwil a Datblygu a manteision ychwanegol i'w ffermydd – trwy gylchlythyr y Consortiwm Ymchwil Rheoli Perygl Llifogydd, cyflwyniadau a chyswllt rheolaidd â'r gymuned Ymchwil a Datblygu.
- Darganfod pa fanteision y mae ffermwyr yn meddwl y maent wedi eu cael trwy wasanaeth yr Arolwg Busnes Fferm a ddarparwyd iddynt.
- Darganfod a yw ffermwyr yn meddwl bod y prosiect wedi eu helpu i wella ac arallgyfeirio eu hincwm.
- Darganfod pa gyfraniad y mae ffermwyr yn meddwl maen nhw wedi ei wneud i ddatblygiad polisi LIC.
- Darganfod beth mae'r ffermwyr yn meddwl allai'r gwersi a ddysgwyd o brosiect Pontbren fod ar gyfer diwygio'r PAC a datblygiad y Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf.

Dulliau

- Adolygiad o lenyddiaeth sy'n bodoli eisoes.
- Cyfweiliadau unigol gyda phob ffermwr yng ngrŵp Pontbren.
- Trafodaeth grŵp gyda'r holl ffermwyr.
- Cyfweiliadau un i un gyda'r holl unigolion eraill a gymerodd ran yn natblygiad y prosiect.
- Gwerthuso data ar ddadstocio, amaeth-amgylchedd a lefelau cyfranogiad a thaliadau'r Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd.

Darperir canlyniadau manwl yn yr adroddiad llawn gan drafod y pwyntiau canlynol:

- Manteision a Phroblemau
- Effeithiau'r Arolwg Busnes Fferm
- Cynllunio Olyniaeth Fferm
- Newid Ymddygiad ac Agwedd
- Effeithiau Gweithgareddau Ymchwil a Datblygu
- Effaith Polisi

Casgliadau ac Argymhellion

Yn gyffredinol, mae Prosiect Pontbren wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn i'r ffermwyr a gymerodd ran, gan gyflwyno syniadau a phrofiadau newydd iddynt a chreu cyfleoedd sylweddol iddynt ddatblygu arloesiadau yn eu busnesau fferm. O ganlyniad i'r gwaith amgylcheddol maen nhw wedi ei wneud, sicrhawyd nifer o fanteision i nifer o fuddiolwyr y tu hwnt i'r ffermydd hefyd. Er eu bod wedi cael rhai siomedigaethau, maen nhw wedi cael cymaint o lwyddiant ei bod yn bwysig myfyrio ar sut y gellir cefnogi ffermwyr eraill i ddatblygu prosiectau tebyg.

- Yn y lle cyntaf, mae'n bwysig ail-bwysleisio nad oes unrhyw gynlluniau sy'n bodoli eisoes wedi eu galluogi i wneud yr hyn roeddent yn dymuno ei wneud, a dyma pam y gwnaethant droi at yr opsiwn o gyllid loteri (Enfys). Nodir negeseuon manwl ar eu pryderon â'r cynlluniau yn Adran 4.6 'Effeithiau Polisi' yr adroddiad llawn; gellir crynhoi'r rhain yn neges gryfaf y ffermwyr: i gadw cynlluniau fferm yn syml.
- Mae'r ffermwyr yn teimlo eu bod wedi cynhyrchu allbynnau mwy buddiol trwy'r gwaith a ariannwyd gan Enfys nag y maent yn ei weld yn cael ei gyflawni gan gynlluniau amaeth-amgylchedd safonol. Cefnogwyd y safbwynt hwn o 'ychwanegolrwydd' cynlluniau eraill gan werthusiadau swyddogol (Swyddfa Archwilio Cymru 2007).
- Ni fyddai'r ffermwyr wedi bod yn barod i wneud y gwaith hwn heb yr hyblygrwydd a'r annibyniaeth a roddwyd iddynt gan grant Enfys a chyllid LIC. Roedd eu rheolaeth dros y prosiect, ac yn enwedig y gallu i gynllunio gwaith amgylcheddol y tybiwyd ei fod yn briodol i'w systemau ffermio yn hytrach na dilyn templed cynllun a gynlluniwyd ymlaen llaw, yn ffactorau allweddol yn eu llwyddiant.
- Mae dymuniad ffermwyr am annibyniaeth a'u rhwystredigaeth gyda beichiau gweinyddol a rheoliadol yn adnabyddus fel rhesymau am eu diffyg ymgysylltiad â chynlluniau amaeth-amgylchedd (AWC 2012). Gall hyn gynnwys materion o amseru a fframweithiau cyllidebu anhyblyg ar gyfer cynlluniau yn ogystal â phwyntiau cynllunio ehangach (a nodir yn adran 4.6 yr adroddiad llawn). Mae Prosiect Pontbren wedi bod yn llwyddiannus gan ei fod wedi gweithio o gwmpas y problemau hyn.

- Mae'r prosiect wedi gweithio o'r pwynt cychwyn o flaenoriaethau'r ffermwyr, ac wedi cael ei yrru ymlaen gan eu dyheadau. Mae eu cyfrifoldeb am y prosiect wedi sicrhau llawer mwy o gyfranogiad a chydweithrediad na fyddai wedi bod yn wir pe baent wedi cael eu harwain gan asiantau allanol.
- Mae'r ffaith bod manteision lluosog wedi cael eu sicrhau gyda'i gilydd yn dangos ei bod yn bosibl gweithio gyda blaenoriaethau cynhyrchu ffermwyr i gyflawni canlyniadau eraill. Mae angen cydbwysu hyn, ac ni fwriedir iddo awgrymu y dylid ystyried dwysau cynhyrchiad fel prif nod o flaen popeth arall. Ond mae yn dangos nad yw'n werth gwthio yn erbyn pobl pan fo cyfleoedd i gydweithio ar nodau wedi eu halinio.
- Mae'r ffermwyr wedi dysgu llawer o'r prosiect ac mae eu hagweddau a'u hymddygiad wedi newid mewn rhai meysydd – yn enwedig o ran dwyseddau stocio a'u dealltwriaeth o hydroleg y dalgylch. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd profiad ymarferol a'u rhyngweithio gyda gwyddonwyr yn ystod cyfnod y prosiect. Serch hynny, mae'n amlwg nad yw'r prosiect wedi newid patrymau ymddygiad neu werthoedd cyfredol yn sylfaenol. Yn hytrach, mae wedi cefnogi a galluogi'r ffermwyr i ddatblygu priodweddau a thueddiadau a oedd yn bresennol eisoes.
- Gan fod y prosiect wedi dangos y gall cefnogi ffermwyr greu manteision ehangach, mae grŵp Pontbren o'r farn bod eu hachos yn dystiolaeth bod swyddogaeth adnabyddadwy i ffermio, o fewn yr economi wledig a chymdeithas yn fwy eang, ac y dylent gael eu cefnogi yn y swyddogaeth hon.
- Mae dynameg y grŵp wedi bod yn hanfodol o ran ffurfio cyfalaf cymdeithasol sydd wedi atgyfnerthu brwdfrydedd y ffermwyr tuag at y prosiect, wedi eu cymell i weithio i safonau uchel ac wedi cynnig dull cefnogaeth yn ystod cyfnodau anoddach. Mae'r elfen gymdeithasol hon wedi bod yn allweddol i ddatgloi a lluosu manteision y prosiect.
- Nid yw gweithio mewn mentrau cydweithredol yn gyffredin yn niwylliant ffermio'r DU, ond o gofio'r manteision a sicrhawyd ym Mhontbren, mae angen hyrwyddo gwaith cydweithredol ymhellach i gefnogi dibenion amgylcheddol ac economaidd (Franks ac Emery 2013; CCRI 2008). Ni fydd gweithio cydweithredol yn briodol i bob ffermwr ac ni ddylid ei ystyried fel panacea, ond dylid rhoi mwy o gefnogaeth i'r rhai sy'n barod i gymryd rhan.
- Mae gwaith grŵp yn arbennig o bwysig i sicrhau manteision amgylcheddol ar draws dalgylch ar raddfa tirwedd. Mae manteision tirwedd wedi dod i'r amlwg ym Mhrosiect Pontbren ond ni chawsant eu cynllunio trwy fapio grŵp cydweithredol.
- Mae'r ffermwyr yn dal i fod yn wylidwrus o ran cynllunio lefel dalgylch, ac yn pryderu'n benodol am lyw asiantaethau allanol a fyddai'n annog cyfnewidiadau rhwng canlyniadau amgylcheddol a chynhyrchu. Bydd angen cymhellion priodol a sicrheir dros yr hirdymor er mwyn i reolaeth lefel dalgylch

weithio. Hefyd, mae angen cyfnewid ymchwil a gwybodaeth parhaus gyda'r ffermwyr i gynllunio dulliau priodol ar gyfer darparu gwasanaethau ecosystem.

- Mae mynediad at hwyluswyr medrus a dibynadwy yn hanfodol ar gyfer gwaith grŵp llwyddiannus. Fel y mae Keenleyside (2013) hefyd yn ei amlinellu, mae angen i'r aelodau staff cynorthwyol hyn fod ag arbenigedd a dealltwriaeth o faterion ffermio ac amgylcheddol, yn ogystal â bod yn sensitif a hyblyg o ran anghenion ffermwyr. Yn y dyfodol, gallai'r grŵp elwa o ragor o gefnogaeth gyda'u busnesau fferm craidd, gan fod cefnogaeth gynghorol wedi canolbwyntio'n helaeth ar faterion amgylcheddol hyd yn hyn.
- Mae eu profiad gyda marchnata cig yn awgrymu mai nad mentrau cynhyrchu cydweithredol a brandio gwerth ychwanegol yw'r ateb i bawb (gweler hefyd AWC 2012). Er eu bod wedi dysgu o'r profiad, maent yn teimlo yn y pen draw na allant ymddiried mewn archfarchnadoedd ac nad yw gwahaniaethau pŵer a chystadleuaeth o'u plaid yn aml. Yn yr un modd, nid oedd gwerthu i farchnadoedd lleol yn llwyddiannus yn eu hardal oherwydd demograffeg dlotach a oedd yn golygu bod galw am gynnyrch arbenigol yn is. Mae hyn yn codi cwestiynau am yr opsiynau mwyaf effeithiol i'w dewis yn y blynyddoedd nesaf i sicrhau cadwynau cyflenwi gwydn. Mae rhai aelodau o'r grŵp wedi parhau i werthu cynnyrch yn uniongyrchol i sail gwsmeriaid sefydledig, ond mae cost llafur uchel yn gysylltiedig â hyn sydd wedi golygu nad oedd yn briodol i bawb.
- O ran eu systemau ffermio, er bod yr angen am ddwyseddu stocio is a chostau mewnbwn is yn cael ei dderbyn mwy ymhlith y grŵp bellach, mae hefyd yn amlwg eu bod yn teimlo pwysau cynyddol i gynhyrchu bwyd yn dod i'r amlwg unwaith eto. Gan ymateb i'r agendâu newidiol hyn, mae'r ffermwyr yn pwysleisio bod parhad polisi yn fwy hirdymor yn hanfodol er mwyn osgoi negeseuon a chymhellion gwrthgyferbyniol.
- Mae parhad o ran y taliadau sydd ar gael yn bryder mawr ar hyn o bryd, gan fod angen cynnal a chadw'r gwaith maen nhw wedi ei wneud hyd yn hyn er mwyn sicrhau bod y manteision yn parhau.
- O ran y gwaith ymchwil a wnaed ar y safle, ceir llawer o botensial i Bontbren barhau i weithio fel safle arddangos. Nodir yr angen am waith ymchwil mwy cymhwysol fel argymhelliad ehangach (ledled Cymru) ar gyfer y dyfodol hefyd (AWC 2013). Mae prosiect Pontbren yn dangos bod defnydd o agrogoedwigaeth/agro-ecoleg yn fater allweddol i fynd i'r afael ag ef yn hyn o beth.
- Yn olaf, er ei fod yn grŵp unigryw mewn sawl ffordd, mae'n bwysig nodi bod gwersi o enghreifftiau eraill o waith cydweithredol a'r ddarpariaeth o wasanaethau ecosystem yn ategu ac atgfynerthu'r rhai a amlinellir yma (gweler e.e. CCRI 2008; Wynne-Jones 2013; Wynne-Jones et al. 2013).

ADRAN 1: CYFLWYNIAD

Mae Grŵp Pontbren yn cynnwys deg teulu cyfagos sy'n ffermio bloc cyffyrddol mil hectar yn nalgylch Nant Pontbren ger Llanfair Caereinion yng ngogledd Powys. Daethant at ei gilydd gyntaf fel grŵp o dri ym 1997, ac yna gwahodddwyd y saith arall i ymuno yn 2001. Yn ystod y deuddeg mlynedd diwethaf, mae'r ffermwyr wedi cydweithio i ddatblygu cynigion arloesol i ail-ganolbwyntio eu dulliau ffermio fel ffordd o ddarparu system fwy cynaliadwy o amaethyddiaeth.

Mae eu hamcanion yn cynnwys:

- Rheoli fferm cynaliadwy (nawr ac ar gyfer y dyfodol).
- Lloches well i dda byw
- Arallgyfeirio busnes fferm
- Integreiddio gwaith amaethyddiaeth a rheoli coetir yn fwy effeithiol
- Creu cynefinoedd bywyd gwyllt
- Cynhyrchu pren i'w ddefnyddio ar y fferm ac ar gyfer prosesu gwerth ychwanegol
- Gwella tirwedd yr ucheldir

Maent wedi ceisio bodloni'r amcanion hyn trwy:

- Leihau stoc
- Gwella'r amgylchedd – plannu lleiniau lloches, perthi newydd a chreu rhwydwaith o byllau.
- Cynhyrchu pren a chynhyrchion coed gwerth ychwanegol, gan gynnwys coed tân, sarnau sglodion coed ac eginblanhigion coed a dyfwyd yn lleol o darddiad lleol.
- Marchnata arbenigol o gynnyrch fferm trwy grŵp cynhyrchwyr Pontbren, mewn marchnadoedd ffermwyr a thrwy gontract ag archfarchnad².
- Monitro busnes drwy'r Arolwg Busnes Fferm.

Un o fanteision ychwanegol prosiect Pontbren a ddaeth i'r amlwg yn ystod y gwaith plannu coed oedd y gwelliant i strwythur y pridd a'r effaith ddilynol ar hydroleg y dalgylch. O ganlyniad i arsylwadau a wnaed yn wreiddiol gan y ffermwyr ac aelodau staff Coed Cymru yn 2001 (ar ôl y camau plannu cychwynnol), gwnaed gwaith ymchwil manwl wedyn gan y Consortiwm Ymchwil Rheoli Perygl Llifogydd (FRMRC)³, wrth i safle'r prosiect gynnig lleoliad astudiaeth maes delfrydol ar gyfer

² Mae rhai aelodau wedi gweithio gyda'i gilydd i werthu eu cynnyrch yn uniongyrchol i farchnad ffermwyr leol ac mae'r grŵp ehangach wedi ceisio ennill contract gydag archfarchnad ar gyfer eu cynnyrch fel menter gydweithredol, ond nid ydynt wedi bod yn llwyddiannus yn y fenter hon.

³ Gwnaeth CEH ym Mangor waith monitro gwyddonol cychwynnol (Bird et al. 2003) a roddodd awgrymiadau cynnar o ddiddordeb a'r angen am astudiaeth fanwl bellach. Yn 2004, cynhaliodd yr FRMRC adolygiad llenyddiaeth cynhwysfawr yn cefnogi'r angen am astudiaeth fanwl bellach. Gwnaeth yr FRMRC y gwaith ymchwil hwn wedyn rhwng 2004 a 2011, a chymerwyd mesuriadau pellach yn 2012 (roedd hyn yn cynnwys gwaith ar gludiant gwaddod yn ogystal â monitro hydrolegol);

gwaith ymchwil ar raddfa dalgylch. Mae Pontbren hefyd wedi bod yn safle ar gyfer gwaith a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ar ansawdd dŵr ac mae wedi bod yn gysylltiedig â phrosiectau Ymchwil a Datblygu ac ysgoloriaethau PhD niferus eraill (e.e. HCC 2008; Henshaw 2009; Solloway 2012). O bwys penodol y mae gwaith Dr. Tim Pagella ym Mhrifysgol Bangor, a gymerodd ran yn natblygiad y dull delweddu tirwedd System Gwybodaeth Ddaearyddol, 'Polyscapes', gyda mewnbwn ffermwyr Pontbren, i gefnogi mesurau cynllunio ac addasu tirwedd (Jackson et al. 2013; Pagella 2011a).

Yng ngoleuni'r manteision lluosog a ddaeth i'r amlwg, cydnabuwyd yr enillion strategol y gallai grŵp Pontbren eu darparu gan Lywodraeth Cymru (LIC), o ran ffermio a choedwigaeth integredig ar ucheldiroedd Cymru a gwerth gwaith cydweithredol. Yn benodol, ystyriwyd y gallai'r prosiect ddarparu gwersi defnyddiol ar gyfer datblygu cynlluniau amaeth-amgylchedd a datblygu gwledig ehangach. Yn sgil hynny, mae LIC wedi darparu cymorth ariannol i'r prosiect trwy daliadau dadstocio a thaliadau atodol i'r Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd (FWPS) a Chynlluniau Grant Coetir⁴. Defnyddiwyd y cyllid hwn gan Lywodraeth Cymru i ddarparu arian cyfatebol i grant Loteri Enfys, a ddarparodd y cyllid ar gyfer prif gyfnod y prosiect⁵.

Yn rhedeg ochr yn ochr â'r prosiectau ymchwil a amlinellir uchod, mae nifer o astudiaethau interim a chryno wedi trafod rhai agweddau ar ddatblygiad y prosiect o safbwynt gwyddor gymdeithasol a pholisi (CCRI 2008; Keenleyside 2013). Gan fod elfen dadstocio Prosiect Pontbren wedi dod i ben bellach, mae LIC wedi comisiynu gwerthusiad pellach i ddarganfod effeithiau'r prosiect o safbwynt y ffermwyr ac i nodi gwersi polisi allweddol i'w dysgu ar gyfer y RhDG nesaf a'r diwygiadau cyfredol i'r PAC - dyna ddiben yr adroddiad hwn a gyflawnwyd gan AWC.

mae gwaith ymchwil ychwanegol ar fioamrywiaeth wedi cael ei wneud hefyd ac mae rhagor o waith ar y gweill ar fioamrywiaeth ddyfrol.

⁴ Gweinyddir y grantiau diweddarach hyn drwy'r Comisiwn Coedwigaeth.

⁵ Gweler tabl 4.1 am ragor o fanylion ar ariannu'r prosiect.

Amcanion Ymchwil

Amcanion y gwerthusiad hwn yw canolbwyntio ar safbwyntiau a phrofiadau ffermwyr Pontbren. Yn benodol, ei nod yw:

- Darganfod beth mae'r ffermwyr yn ei feddwl fu manteision a phroblemau'r prosiect iddyn nhw – gwersi maen nhw wedi eu dysgu neu y maent yn meddwl y dylai eraill eu dysgu.
- Ystyried 'newid ymddygiad' y ffermwyr a gymerodd ran yn ystod yr holl gyfnod ers dechrau'r prosiect yn 2002, gan adeiladu ar Adroddiad y CCRI (2008).
- Ystyried a yw prosiect Pontbren wedi cael unrhyw effaith ar 'olyniaeth' mewn strwythur ffermydd o ran newidiadau i bennaeth y daliad neu sut y trefnir ffermydd.
- Darganfod sut mae safbwyntiau ac agweddau ffermwyr Pontbren wedi newid yn ystod oes prosiect Pontbren.
- Cofnodi safbwyntiau ffermwyr ar y gweithgarwch Ymchwil a Datblygu a manteision ychwanegol i'w ffermydd – trwy gylchlythyr y Consortiwm Ymchwil Rheoli Perygl Llifogydd, cyflwyniadau a chyswllt rheolaidd â'r gymuned Ymchwil a Datblygu.
- Darganfod pa fanteision y mae ffermwyr yn meddwl y maent wedi eu cael trwy wasanaeth yr Arolwg Busnes Fferm a ddarparwyd iddynt.
- Darganfod a yw ffermwyr yn meddwl bod y prosiect wedi eu helpu i wella ac arallgyfeirio eu hincwm.
- Darganfod pa gyfraniad y mae ffermwyr yn meddwl maen nhw wedi ei wneud i ddatblygiad polisi LIC.
- Darganfod beth mae'r ffermwyr yn meddwl allai'r gwersi a ddysgwyd o brosiect Pontbren fod ar gyfer diwygio'r PAC a datblygiad y Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf.

ADRAN 2: DULL

Yn y lle cyntaf, cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth sy'n bodoli eisoes (fel y nodir yn yr adran nesaf) i ddarganfod y deunydd a oedd ar gael i fynd i'r afael â'r cwestiynau a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru, ac i ddarparu data cyd-destunol ehangach i gymharu'r wybodaeth benodol o Bontbren yn ei erbyn. Galluogodd hyn i linell amser a throsolwg o hanes a gweithgareddau'r prosiect gael eu sefydlu hefyd fel ffordd o hysbysu cam cyfweliadau dilynol y gwaith o gasglu data.

Cynhaliwyd cyfweliadau unigol gyda phob aelod o grŵp Pontbren (a'i deulu os ystyriwyd bod hynny'n briodol), gan ddilyn y drefn gyfweliadau a nodir yn yr atodiadau. Cynlluniwyd y cwestiynau i gynnwys yr holl faterion allweddol y gofynnwyd amdanynt gan Lywodraeth Cymru. Defnyddiwyd dull cyfweld lled-strwythuredig er mwyn gadael i'r ffermwyr arwain y sgwrs a mynegi eu barn fel roeddent yn teimlo oedd yn addas. Sicrhodd y dull hwn y gellid nodi profiadau'r ffermwyr mewn cymaint o fanylder â phosibl ac y gellid osgoi achosion o adael pethau allan a all ddigwydd fel arall os defnyddir dull rhy strwythuredig. Cofnodwyd a thrawsgrifiwyd y cyfweliadau cyn eu dadansoddi gyda'r feddalwedd dadansoddi ansoddol NVivo (a ddefnyddiwyd i gynorthwyo gyda'r gwaith o godio a nodi themâu allweddol).

Ar ôl cwblhau a dadansoddi'r cyfweliadau unigol, cynhaliwyd trafodaeth grŵp bellach gyda'r ffermwyr ac ymchwilydd AWC er mwyn cynnig adborth ac egluro canfyddiadau'r gwaith ymchwil. Yng ngoleuni'r llyw cryf gan y ffermwyr ym mhob agwedd ar ddatblygiad y prosiect hyd yn hyn, ystyriwyd bod sicrhau eu cyfranogiad a'u hyder llawn yn y broses werthuso yn hanfodol.

Hefyd, cynhaliwyd cyfweliadau un i un gydag unigolion eraill a oedd yn rhan o ddatblygiad y prosiect, gan gynnwys aelodau staff o Coed Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a'r Consortiwm Ymchwil Rheoli Perygl Llifogydd. O gofio eu swyddogaeth yn yr adroddiad diweddar gan Keenleyside (2013), cyfwelwyd cynrychiolwyr Coed Cadw hefyd. Dangosir rhestr lawn o gyfweliadau yn yr atodiadau.

Mae gwybodaeth am ddadstocio, amaeth-amgylchedd a lefelau cyfranogiad a thaliadau'r Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd hefyd wedi cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru, a chafodd y data hwn ei gynnwys yn y dadansoddiad lle'n briodol.

ADRAN 3: ADOLYGIAD LLENYDDIAETH

Mae'r trosolwg cryno hwn o'r llenyddiaeth yn amlygu cysylltiadau ehangach rhwng profiadau grŵp Pontbren a ffermwyr ledled y DU (ac Ewrop). Mae rhoi eu safbwyntiau a'u penderfyniadau yn y cyd-destun ehangach hwn yn cynnig pwynt cyfeirio pwysig i werthuso'r gwersi a ddysgwyd o Bontbren ac yn dangos perthnasedd ehangach eu hargymhellion i bolisi ar lefel genedlaethol.

Mae Prosiect Pontbren wedi bod yn destun nifer o werthusiadau ers ei sefydlu, gan gynnwys gwerthusiadau o'r elfennau naturiol a gwyddor gymdeithasol. O bwysigrwydd penodol i'r adroddiad hwn mae llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes, sy'n cynnwys trafodaethau o brofiadau ffermwyr Pontbren a gwersi a ddysgwyd, gan gyfeirio'n benodol at oblygiadau polisi. Mae llenyddiaeth allweddol sy'n mynd i'r afael â phwyntiau o'r fath yn cynnwys:

Dogfen 'Evaluation of key factors that lead to successful agri-environmental co-operative schemes' y CCRI (2008), sy'n cynnwys ffermwyr Pontbren fel grŵp astudiaeth achos. Nodau'r gwaith ymchwil hwn oedd nodi'r heriau o ran sicrhau cydweithrediad amaeth-amgylchedd llwyddiannus yng Nghymru; a gwneud argymhellion o ran dulliau polisi priodol er mwyn sicrhau canlyniadau amaeth-amgylchedd llwyddiannus trwy grwpiau cydweithredol. Canolbwyntiodd y gwaith ymchwil yn benodol ar bwysigrwydd cyfalaf cymdeithasol a swyddogaeth rhwydweithiau cymdeithasol, gan bwysleisio pwysigrwydd cynyddu gallu a dulliau hwyluso priodol i alluogi hyn. Mae'r adroddiad hefyd yn archwilio rhyng-gysylltiad grwpiau ffermwyr â phrosesau llywodraethol ac yn amlygu argymhellion ar gyfer addasu a gwella cynlluniau datblygu gwledig i gefnogi mentrau cydweithredol.

Mae 'Prosiect Pontbren' gan Coed Cadw a Coed Cymru (Keenleyside 2013) yn cynnig trosolwg pwysig o ddatblygiad a chanlyniadau allweddol y prosiect. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gymhellion y ffermwyr a'r prosesau a oedd yn rhan o ddatblygiad y prosiect (fel ceisiadau i gynlluniau, ffynonellau cyllid, gwaith partneriaeth a chyfansoddiad grwpiau ffurfiol). Trafodir manteision coetir fferm fel y gwelwyd ym Mhontbren hefyd, gan gyfeirio at waith gan y Consortiwm Ymchwil Rheoli Perygl Llifogydd (gweler hefyd Bird et al. 2003; Wheeler et al. 2008). Amlinellir gwersi polisi allweddol, gan fynd i'r afael â chwestiynau yn ymwneud â dyluniad y cynllun ac argymhellion cysylltiedig ar gyfer cefnogaeth RhDG.

Mae gwaith ymchwil 2013 Jackson et al ar ddull Delweddu Tirwedd System Gwybodaeth Ddaearyddol Polyscape yn llunio mapiau effaith i archwilio cyfnewidiadau a synergeddau ymhlith gwasanaethau ecosystem sy'n gysylltiedig â'r defnydd o ymyriadau gorchuddio tir. Ym Mhontbren, er enghraifft, defnyddiwyd Polyscapes i ddatblygu mapiau yn dangos pa ran o'r dalgylch sydd â'r potensial i gynnig y mwyaf o fanteision ar gyfer lliniaru rhag llifogydd a rheoli gwaddod a charbon, gan gael yr effeithiau lleiaf andwyol ar gynhyrchiant ffermydd (gweler hefyd Pagella 2011a,b). Mae Polyscapes yn cynnwys gwybodaeth leol yn y gwaith o ddatblygu a thir-wirio algorithmau, sy'n hysbysu gweithrediad dull y System Gwybodaeth Ddaearyddol. Gall hefyd sicrhau ymgysylltiad a chyfnewid gwybodaeth lleol ynglŷn â'r ddarpariaeth o wasanaethau ecosystem.

Gan mai profiadau'r ffermwyr a chwestiynau cysylltiedig yn ymwneud â newid ymddygiad, cyfranogiad mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd ac arallgyfeirio busnes fferm yw testun yr adroddiad AWC hwn, darllenwyd ffynonellau ychwanegol ar y pynciau hyn hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau AWC ar Benderfyniadau Ffermwyr (2012) a Throsglwyddo Gwybodaeth ac Arloesedd (2013), Canllaw Arfer Gorau Blackstock et al. (2007) (ar gyfer hybu ymddygiad amgylcheddol ymhlith ffermwyr); papurau academiaidd ar waith cydweithredol rhwng ffermwyr gan gynnwys Franks ac Emery (2013), Slangen a Polman (2002) a Sutherland et al. (2012); a dadansoddiadau o gynllun coetir Glastir gan gynnwys adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig (2012), 'Tyfu Ein Coetiroedd yng Nghymru' ac Wynne-Jones (2013a).

Yn gyffredinol, mae'r llenyddiaeth hon yn amlygu nifer o bwyntiau allweddol sy'n cydfynd â'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn, gan ddarparu dilysiad ehangach o'r wybodaeth a ganfuwyd yma gan ffermwyr Pontbren a rhanddeiliaid eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect:

- Mae ffermwyr yn fwy tebygol o gymryd rhan os yw'r newidiadau arfaethedig yn gweithio i gefnogi busnes craidd y fferm. Yn aml, mae hwn hefyd yn ddull mwy cadarn o safbwynt economaidd.
- Mae angen cymysgedd o ddulliau i annog newid ymddygiad, gan gynnwys cymhellion economaidd i ddarparu'r cyfalaf ariannol sy'n aml yn ofynnol i alluogi newid.
- Mae defnyddio dulliau cynghori yn hanfodol i gefnogi grwpiau ffermwyr (e.e. cyfarwyddyd gan aelodau staff ag arbenigedd priodol, fel Coed Cymru yn yr achos hwn). Dylid addasu'r rhain i wahanol anghenion ffermwyr a rhoi dulliau 'datblygu dynol' ar waith sydd â'r nod o hwyluso gweithredu a dysgu grŵp.
- Mae dulliau cynghori sy'n defnyddio egwyddor o gyfnewid gwybodaeth wedi dod yn gynyddol boblogaidd yn hytrach na phrosesau o'r brig i lawr sy'n ceisio cyfleu neges y penderfynwyd arni ymlaen llaw.
- Mae'n bwysig sicrhau bod rhaglenni newid ymddygiad yn cael eu haddasu i'r ardal benodol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dulliau mwy cyfranogol ac o'r gwaelod i fyny i nodi a datrys problemau, yn ogystal â sicrhau enghreifftiau lleol i ffermwyr ddysgu ohonynt.
- Mae ymddiriedaeth a hygredd yn hanfodol i'r broses gynghori ac i sicrhau bod nodau newid ymddygiad yn cael eu bodloni.

Yn adleisio llawer o'r pwyntiau hyn, dangosir casgliadau ac argymhellion penodol o werthusiadau blaenorol o Bontbren (CCRI 2008; Keenleyside 2013) yn nhablau 1 a 2:

Tabl 1: Casgliadau ac Argymhellion o ‘Prosiect Pontbren’ Keenleyside (2013)

- Gall coetir llydanddail a lleiniau lloches wneud rheolaeth ffermydd ucheldir yn fwy effeithlon, yn ogystal â chynnig manteision amgylcheddol ehangach na ddeallwyd yn flaenorol.
- Un ffactor hanfodol o ran sicrhau manteision amgylcheddol posibl plannu coed a pherthi yw'r dewis strategol a gwybodus o leoliadau, rhywogaethau a rheolaeth.
- Dangosodd y canfyddiadau ymchwil a oedd weithiau'n annisgwyl pa mor bwysig yw arbrofion ac arsylwadau yn y maes i ddeall prosesau hydrolegol a biolegol cymhleth, ac i helpu i ddatblygu a graddnodi modelau cyfrifiadurol y gellir eu defnyddio'n fwy eang.
- Nid oes gan gynlluniau grant amaeth-amgylchedd a choetir confensiynol ddigon o hyblygrwydd i gefnogi mentrau amgylcheddol cydweithredol wedi eu targedu, penodol i safle a arweinir gan grwpiau o ffermwyr a thirfeddianwyr.
- Bydd angen i grwpiau a arweinir gan ffermwyr sy'n dilyn model Pontbren fanteisio ar wasanaethau hwyluswyr a chynghorwyr technegol medrus sy'n deall amcanion y busnes fferm ar y naill law ac anghenion a chyfleoedd amgylcheddol ar y llall.

Tabl 2: Argymhellion Dethol o Ddogfen ‘Evaluation of key factors that lead to successful agri-environmental co-operative schemes’ y CCRI (2008).

- Sicrhau digon o hyblygrwydd yn y cynllun i ganiatáu atebion rheoli lleol i ddatblygu a galluogi ail-gyfeiriadu yn ystod y cynllun, os oes angen.
- Penodi neu gydnabod yn ffurfiol hwylusydd ar gyfer pob grŵp, a nodi unigolion â'r bersonoliaeth gywir, sy'n lleol ac yn cael eu parchu gan ffermwyr.
- Darparu hwyluswyr â hyfforddiant mewn sgiliau hwyluso ac mewn dulliau cyfranogiad a chyfathrebu.
- Cynnig taliadau sydd o leiaf yn talu cost gweithgareddau rheoli sy'n gysylltiedig â rhedeg a pherthyn i'r grŵp (gan gynnwys mynediad at gyllid ar gyfer hwylusydd ac aelodau staff cynghori).
- Cynnig grantiau cyfalaf yn gynnar ac annog y defnydd o gontractwyr a chyflenwyr lleol i sicrhau'r manteision economaidd-gymdeithasol mwyaf posibl i'r economi leol ehangach.
- Cynnig dau becyn ariannu – pecyn cychwynnol a phecyn rheoli cynllun amaeth-amgylchedd mwy hirdymor, ar ôl sicrhau statws cyfreithiol grŵp.
- Rhoi'r cyfle i ffermwyr gyflawni eu gweithgareddau monitro eu hunain.

ADRAN 4: CANLYNIADAU

Tabl 4.1: Trosolwg a Llinell Amser o Weithgareddau Prosiect Pontbren

Blwyddyn	Cynllun / Cyllid
1992	Coed Cymru yn dechrau gweithio gyda'r ffermwr yn Nhyn y Bryn; darparodd y Cynllun Grant Ffermydd a Chadwraeth 30% o'r cyllid ar gyfer plannu cynnar, daeth gweddill yr arian drwy hunan-ariannu.
1997	Taith gerdded y Bwrdd Hyfforddiant Amaethyddol ar fferm Tyn y Bryn yn ysbrydoli gwaith plannu cynnar yn Nhyn y Fron a'r Belan. I gychwyn, darparodd arian LEADER ac yna Cynllun Gofal Cefn Gwlad Scottish Power ddwy flynedd o gyllid ar gyfer y cam nesaf o blannu coed. Trwy gydol y cam cynnar hwn, ac am weddill y prosiect, darparodd Coed Cymru wasanaethau cymorth technegol i'r ffermwyr ar gyfer cynlluniau rheoli a gwneud y ceisiadau grant, mapio a darparu cyngor ar blannu coed
2001	Ehangu aelodaeth y grŵp: cyfanswm o ddeg fferm gyfagos*
2002-12	Ariannodd LIC waith dadstocio ar saith fferm Darparodd LIC gyllid i gwblhau'r Arolwg Busnes Fferm yn flynyddol ar bob fferm a thrafododd y canfyddiadau gyda'r ffermwyr.
2003	Sicrhawyd cyllid Enfys CGGC ar gyfer plannu coed a gwaith codi ffensys ar draws bob un o'r deg fferm. Darparodd Llywodraeth Cymru daliadau cyfatebol i gyllid Enfys ar gyfer dadstocio (i chwe busnes fferm) Yn ogystal â'r arolwg effaith hydrolegol, dau o rag-amodau dyfarnu Grant Enfys oedd: Y gofyniad i ystyried effaith cymdeithasegol gwaith cydweithredol ar y teuluoedd ffermio - yn sgil argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau lle ystyriwyd bod arwahanwydd a straen gwledig yn broblem frys Y gofyniad i gynnal arolwg adar ysglyfaethus 'cyn ac ar ôl' i ddynodi'r gyfradd y cynyddodd dwysedd bioamrywiaeth o ganlyniad i welliannau i gynefinoedd. Cytunwyd ar Gynlluniau Premiwm Coetir Ffermydd ar gyfer pedwar busnes fferm hefyd**. Arweiniodd y cais Enfys at gyfansoddiad cyfreithiol y grŵp fel menter gydweithredol hefyd***. Sicrhawyd arian LEADER (Glasu) i gefnogi planhigfa goed Awdurdod Datblygu Cymru yn ariannu peiriant malu coed i broses coed o'r gwaith teneuo – arbrofion gyda sarnau a'r defnydd o sglodion coed (gweler HCC 2008) Cynhaliodd CEH Bangor astudiaeth gychwynnol ar effeithiau plannu Gwerthodd cynhyrchwyr gig oen a chig eidion gyda'i gilydd dan frand Pontbren mewn marchnad ffermwyr.
2005/6	Datblygu grŵp cynhyrchwyr gyda chefnogaeth ymgynghorydd a ariannwyd gan LIC – bwriad i lofnodi contract gydag archfarchnad, ond diddymwyd y cytundeb.
2004 - 11	Gwaith ymchwil FRMRC a chyfarfodydd cyfnewid gwybodaeth rheolaidd rhwng ffermwyr ac ymchwilwyr. Gwnaeth LIC waith ymchwil ar ansawdd dŵr. Teithiau cerdded ac ymweliadau addysgol â'r ffermydd yn parhau hyd heddiw
2012	Rhywfaint o blannu ychwanegol yn Nhyn y Bryn trwy Glastir – Creu Coetir; ymunodd Melin y Grug a Phen Llywn â Chynllun Sylfaenol Glastir a dewiswyd Melin y Grug ar gyfer cynllun lefel uwch; ffermydd eraill yn ystyried y cynllun. Pob fferm yn awyddus i gael cyllid ar gyfer cynnal a chadw perthi presennol a phlannu mwy.

Nodiadau o dabl 4.1:

*Er bod y grŵp yn cynnwys 10 fferm, mae un busnes yn bartneriaeth; ceir naw busnes fferm felly

**Gwnaed taliad atodol a gytunwyd o £127/ha/fl am 10 mlynedd hefyd a oedd yn gydnabyddiaeth nad oedd y FWPS yn ddigonol i dalu am y gwaith a gynigiwyd ym Mhontbren a oedd angen plannu mwy dwys na safonau coedwigaeth a chostau cyfalaf uchel ar gyfer ffensio ardaloedd bach.

***Cafodd y grŵp gymorth gan Ganolfan Cydweithredol Cymru gyda hyn.

4.1: Manteision a Phroblemau

Addasu ac Arallgyfeirio Busnes

Mae'r prosiect wedi galluogi'r ffermwyr i arbrofi'n amrywiol gyda'r gweithgareddau canlynol:

- Dadstocio
- Plannu perthi a choetir ar gyfer lleiniau lloches
- Gwelliannau amgylcheddol eraill fel creu pyllau a chynefinoedd
- Marchnata cig gwerth ychwanegol
- Prynu gyda'i gilydd fel menter gydweithredol
- Rhannu peiriannau a gweithio'n gydweithredol
- Prynu peiriant malu coed a defnyddio sarnau sglodion coed
- Datblygu planhigfa goed
- Plannu perthi a choetir a chreu pyllau
- Gosodiadau gwyliau a gwely a brecwast
- Cynnal ymweliadau astudio a theithiau cerdded ar y fferm

Mae profiadau o'r prosiect yn amrywio o fferm i fferm wrth i rai fabwysiadu mwy o newidiadau nag eraill. Mae'r prosiect wedi bod yn ffordd i ffermwyr roi cynnig ar bethau newydd fel maent yn dymuno, ond i wneud cymaint ag y maent yn dymuno yn unig, mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u hanghenion a'u system ffermio. Roedd chwilfrydedd a pharodrwydd i ymuno â grŵp a oedd yn mynd i'w galluogi i archwilio opsiynau newydd yn ffactor a amlygwyd gan lawer o'r ffermwyr fel rheswm am ymuno. Mae'r gallu i arbrofi cymaint neu gyn lleied ag y maent yn dymuno wedi bod yn ffactor bwysig yn niddordeb ac ymrwymiad parhaus y ffermwyr i'r prosiect.

Cyflawnwyd gweithgareddau addasu ac arallgyfeirio busnes gan rai ar sail unigol, weithiau fel grŵp cyfan o ddeg ac weithiau fel grwpiau llai. Roedd rhai gweithgareddau, gan gynnwys rhannu peiriannau a llafur, yn digwydd cyn sefydlu'r prosiect. Mae rhai ffermwyr hefyd wedi bod ar gyrsiau hyfforddi sgiliau mewn diogelwch bwyd ac wedi ennill mwy o sgiliau o ran marchnata cig. Amlygodd mwyafrif y grŵp bod y prosiect wedi eu gwthio i archwilio pethau na fyddent wedi rhoi cynnig arnynt fel arall, a bod hon wedi bod yn fantais bwysig i'w busnes trwy eu galluogi i ddatblygu ffrydiau incwm newydd:

“gwnaeth i mi ganolbwyntio ar y ffaith bod ffyrdd eraill o wneud pethau ar y fferm yn hytrach na chadw at yr anifeiliaid yn unig... rhoddodd gyfle i chi na fyddech chi wedi ei gael fel arall”

Dywedodd eraill bod arbrofion fel y blanhigfa goed a sarnau sglodion coed yn dda ar y pryd er nad ydynt wedi parhau. Mae'r mwyafrif yn cydnabod eu bod wedi magu

mwy o hyder a datblygu mwy o ymwybyddiaeth fusnes o ganlyniad i'r prosiect, ynghyd â mwy o barodrwydd i arbrofi a bod yn agored i syniadau newydd.

“Nid wyf wedi bod ofn cymryd rhan mewn pethau eraill bellach... Rydych chi'n arfer â chymryd rhan a phethau ac yn gwybod beth ellir ei wneud. Rwy'n credu bod rhai ffermwyr yn nerfus am wneud pethau fel arall, eu bod nhw'n mynd i gollu tir neu orfod gwario llawer...”

“Ehangodd ein gorwelion rywsut...”

“gwersi i'w dysgu...yw peidio â bod ofn asiantaethau...peidio â bod yn amddiffynnol. Fel grŵp, rydym ni wedi dysgu i ofyn y cwestiynau cywir... beth mae'n ei olygu i ni, beth mae'n rhaid i ni ei wneud a beth yw'r problemau rydym ni'n mynd i'w hwynebu...”

Fodd bynnag, er bod Pontbren wedi galluogi'r grŵp i archwilio syniadau newydd a magu mwy o hyder i arbrofi, ceir synnwyr eglur o hyd bod y rhan fwyaf o'r grŵp yn teimlo eu bod wedi eu cyfyngu o ran y posibiladau sydd ar gael iddynt. Dim ond ychydig o'r busnesau sydd wedi gallu gwneud newidiadau sylweddol i gryfhau eu ffrydiau incwm (trwy osodiadau gwyliau neu ynni adnewyddadwy er enghraifft). Felly er bod y grŵp yn amlwg wedi gwella gwydnwch eu busnesau trwy leihau lefelau'r mewnbynnau i'w systemau ffermio, nid ydynt wedi gallu sicrhau cynnydd sylweddol i'w henillion o werthu cig oen a chig eidion. Fel y cyfryw, er bod y prosiect wedi eu galluogi i arbrofi gydag opsiynau ar gyfer arallgyfeirio, mae mwyafrif y busnesau yn dal i ddibynnu'n drwm ar un prif allbwn ar hyn o bryd. O ystyried yr anawsterau y maent wedi eu cael yn sicrhau 'gwerth ychwanegol' ar eu cynnyrch (gweler y drafodaeth o farchnata cig isod), maent yn dal i fod mewn sefyllfa lle maent yn agored i niwed.

Dadstocio

O'r naw busnes fferm ym Mhontbren, mae chwech wedi gostwng eu niferoedd mamogiaid magu gyda chefnogaeth gan LIC. Yn 2008, adroddodd y CCRI bod y busnesau hyn i gyd yn gadarnhaol iawn am effeithiau dadstocio, gan ei fod yn eu galluogi i adael y felin draed gynhyrchu, gostwng costau da byw ac, yn y mwyafrif o achosion, gwella canrannau wyna a maint ŵyn. I rai, mae lleihau gofynion llafur hefyd wedi rhoi mwy o amser iddynt ganolbwyntio ar weithgareddau eraill. Nodwyd hefyd mai dadstocio gafodd yr effaith fwyaf ar fusnesau fferm yr aelodau. Mynegwyd yr un safbwyntiau yn y cyfweiliadau a gynhaliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, a phwysleisiodd llawer mai dadstocio oedd un o rannau gorau'r prosiect.

“roedd y dadstocio'n sicr yn rhan dda iawn o'r prosiect i ni. Aeth ein canran wyna i fyny trwy wneud hynny, felly nid ydych chi'n gwerthu gymaint â hynny'n llai o ŵyn yn y pen draw. Dangosodd i ni ein bod ni'n cadw gormod rwy'n credu.”

O ffigurau a gasglwyd gan LIC, mae'n amlwg bod y gostyngiadau canran ar y chwe fferm a ddadstociwyd rhwng 2000/01 a 2011/12 yn amrywio o 14% i 32%. 25% yw'r gostyngiad cyfartalog fesul fferm. Yng Nghymru gyfan, 5.1 miliwn oedd maint y ddiadell mamogiaid magu yn 2001; gostyngodd hyn i 4.1 miliwn yn 2011, sy'n

cyfateb i ostyngiad o 18.5%⁶. Mae'r gostyngiad hwn ledled y wlad wedi dod o ganlyniad i gael gwared ar daliadau y pen, trwy ddiwygiadau i'r PAC. Fodd bynnag, mae'n nodedig bod y ffigurau ar gyfer Pontbren yn dangos gostyngiadau mwy na'r cyfartaledd cenedlaethol, gan ddangos defnydd taliadau dadstocio.

Oherwydd anwadalrwydd o ran prisiau a chostau yn ystod y cyfnod, mae'n anodd nodi effeithiau ariannol cadarnhaol yn eglur. Er hynny, mae data'r Arolwg Busnes Fferm yn datgelu mai tua £24,000 oedd y gwahaniaeth rhwng allbwn fferm cyfartalog y grŵp cyn dadstocio (2002/03) a chyda thaliadau dadstocio (2004/05). Yn ystod yr un cyfnod gwelodd y rhai ym Mhrosiect Pontbren na ddadstociodd gynnydd o £18,000 i allbwn fferm cyfartalog (CCRI 2008).

Ar y ffermydd na ddadstociodd, dywed y ffermwyr bod ffigurau stocio wedi aros yr un fath yn gyffredinol⁷, gan adlewyrchu meintiau diadellau cychwynnol is ar y ffermydd hyn a gwahanol strategaethau busnes y ffermwyr yno.

Yn ystod blynyddoedd cyntaf y prosiect, dadleuodd llawer o ffermwyr y byddent yn cynyddu niferoedd stoc eto pe na bai'r taliadau ganddynt; erbyn hyn, maent yn dweud eu bod yn hapus gyda niferoedd eu diadellau presennol ac na fyddent yn cynyddu eto yn y cyd-destun ariannol cyfredol.

Marchnata Cig

Mewn sawl ffordd, elfen hon y prosiect fu'r siom fwyaf i'r ffermwyr. Gwella gwerth eu cynnyrch a datblygu cadwyn gyflenwi fwy ariannol gynaliadwy oedd un o'r amcanion craidd i'r ffermwyr. Dechreuwyd y fenter hon ganddynt gyda gwerthiannau grŵp cynnar i farchnadoedd ffermwyr lleol dan frand Pontbren, gan adeiladu ar y dull roedd rhai aelodau o'r grŵp wedi ei ddefnyddio cyn cychwyn y prosiect. Er iddynt gael rhywfaint o lwyddiant gyda'r dull manwerthu hwn, ac mae pawb yn cytuno eu bod wedi dysgu llawer iawn ohono (o ran eu hymwybyddiaeth o anghenion defnyddwyr a phrosesu bwyd), ystyriwyd yn y pen draw ei fod yn cymryd gormod o amser i gynnig gwerth am arian (ar ôl iddynt gynnwys costau eu llafur yn yr amser teithio a gwerthu dan sylw).

Hefyd, ni ystyriwyd bod y farchnad leol a'r dalgylch defnyddwyr yn gynulleidfa briodol ar gyfer cynnyrch gwerth uchel, sy'n golygu nad oeddent yn gallu sicrhau'r lefel enillion fyddai ei hangen arnynt i gynnal y dull gwerthu hwn. Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw'r gwahanol fusnesau fferm oll yn gyfartal o ran eu gallu i gyfrannu at grŵp o'r fath, gan fod rhai ffermydd yn cael eu rhedeg gan fwy nag un partner (neu mae ganddynt blant / aelodau staff i helpu) sy'n golygu bod ganddynt fwy o hyblygrwydd o ran y llafur sydd ar gael ac felly roeddent yn cymryd mwy o ran yn y gwerthiannau marchnad. Er bod hon yn un o'r heriau y mae'n rhaid i fentrau cydweithredol fynd i'r afael â nhw, a bod y ffermwyr yn gallu cynnig cyfnewidiadau

⁶ Darparwyd y ffigurau hyn gan LIC.

⁷ Mae un ffermwr na dderbyniodd y taliad dadstocio yn ffermwr godro ac felly nid yw'r ystyriaethau hyn yn briodol iddo ef. Ni ddadstociodd y ddau ffermwr arall gan fod ganddynt niferoedd is o stoc i gychwyn ac roeddent ar wahanol gamau yn eu datblygiad busnes, o'r safbwynt eu bod yn iau na'r ffermwyr eraill ac eisiau ehangu eu busnesau.

llafur eraill i gydbwysu rhaniadau o'r fath, mae'n creu rhai anawsterau o ran rheoli grŵp cynhyrchwyr.

Er y penderfyniad i dynnu'n ôl o werthiannau grŵp yn y marchnadoedd lleol, mae rhai ffermydd yn dal i werthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid y maent wedi datblygu perthynas â nhw dros y blynyddoedd. Ystyriwyd bod y dull hwn o werthu'n uniongyrchol yn ffordd ddefnyddiol o oresgyn y problemau o ymdrin â manwerthwyr a'r enillion is ar gynnyrch sy'n gysylltiedig â gwerthu i archfarchnadoedd. Mae'n nodedig bod y dull hwn wedi cael ei fabwysiadu gan nifer o fusnesau llwyddiannus ledled Cymru (AWC 2012) ac, er nad yw'n briodol i bawb, mae wedi bod yn sianel bwysig i'r rhai sydd wedi elwa ohoni.

Fel grŵp, y cam nesaf o ran marchnata cig oedd sicrhau contract gydag archfarchnad, a gwnaeth y grŵp gynnydd sylweddol yn hyn o beth gyda chymorth gan ymgynghorydd a dalwyd gan LIC. Mae'n anffodus iawn, ac nid yw'n gwbl eglur pam o hyd, y diddymwyd y contract ar gam hwyr yn y broses. Mae'n bosibl bod y newid sydyn i'r hinsawdd economaidd (yn ôl yn 2008) wedi cael effaith ar benderfyniad y manwerthwr, ac nad oedd unrhyw fai ar y grŵp. Mae rhai aelodau'n teimlo efallai eu bod yn rhy fach fel grŵp i fodloni gofynion yr archfarchnad. Beth bynnag fo'r esboniad, mae'n eglur bod hyn wedi cael effaith fawr ar hyder y grŵp wrth ymdrin â manwerthwyr, gan eu bod bellach yn amharod i ymgysylltu ymhellach ag archfarchnadoedd eraill⁸. Mae eu profiad hefyd yn dangos pa mor anodd y gall sefydlu perthynas lwyddiannus rhwng mentrau cynhyrchu cydweithredol a manwerthwyr mawr fod, er y diddordeb cynyddol yn y dull hwn, ac adleisiwyd eu profiadau gan rybuddion gan grwpiau eraill ledled Cymru (AWC 2012). Hefyd, mae'r grŵp yn nodi bod agweddau ehangach sy'n agored i niwed yn y diwydiant bwyd yn golygu eu bod yn wylidwrus o bwy y byddent yn cyflawni busnes â nhw. Yn benodol, nodwyd achosion o fusnesau bach yn mynd i'r wal ganddynt a'u cymdeithion yn colli arian o ganlyniad. Felly, roeddent yn teimlo y gallai fod yn fwy diogel mynd gyda chwmnïau mwy, mwy sefydledig, er nad ydych yn derbyn enillion mor fawr ar eich cynnyrch.

Wrth drafod cyfleoedd eraill ar gyfer gwaith cydweithredol fel grŵp prynu, mae'r ffermwyr yn amlinellu nad ydynt wedi archwilio'r llwybr hwn yn llawn, er iddynt brynu'r deunydd ffensys gyda'i gilydd mewn swmp ar gyfer y gwaith Enfys. Maent yn amlinellu nifer o bryderon am brynu bwyd anifeiliaid fel grŵp, sy'n seiliedig ar eu hanghenion unigol a chynefinoedd prynu bwyd anifeiliaid, a phryderon bod y manteision o brynu fel grŵp yn cael eu herydu'n raddol wrth i fanwerthwyr a melinau addasu i sicrhau eu bod yn cynnal eu helw eu hunain. Hefyd, maent yn cwestiynu a ydynt yn ddigon mawr fel grŵp i fod â'r dylanwad y byddent yn gobeithio ei gael trwy weithio'n gydweithredol; maent hefyd yn nodi rhai pryderon am y broses o sicrhau credyd wrth brynu archebion mawr iawn ar y cyd. Fodd bynnag, mae'r grŵp yn cytuno y gallai prynu tanwydd a gwrtaith mewn swmp fod yn opsiwn defnyddiol i'w archwilio gyda'i gilydd. Yn gyffredinol, mae'n amlwg nad yw'r grŵp wedi archwilio potensial gwaith cydweithredol yn llawn, ac er bod ganddynt nifer o bryderon dilys, mae'n amlwg bod hwn yn faes y gallent ei ystyried ymhellach.

⁸ Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos ei fod yn adlewyrchu'r cynnydd ehangach i'w hyder wrth ymdrin ag asiantaethau a chyfleoedd eraill fel y nodwyd ar t9.

Gwaith Amgylcheddol

Un o nodweddion pwysicaf y prosiect fu'r gwaith amgylcheddol y mae'r grŵp wedi ei wneud, ar ffurf plannu perthi a choetir a chreu pyllau. Mae'r gwaith o blannu perthi a choetir yn arbennig wedi bod yn aml-swyddogaeth o ran ei fanteision, gan alluogi'r ffermwyr i greu mwy o loches i'w stoc (eu prif amcan), i gefnogi bioamrywiaeth ar eu ffermydd ac i gynnig manteision bioamrywiaeth a hydrolegol⁹. Mae'r gallu aml-swyddogaeth hwn wedi bod yn ganolog i lwyddiant y prosiect gan fod y ffermwyr yn eglur iawn y cyflawnwyd y gwaith amgylcheddol ar gyfer y manteision lloches yn bennaf ac na fyddai wedi cael ei wneud fel arall. Daw stori debyg i'r amlwg mewn gwaith ymchwil arall a wnaed ar daliadau ar gyfer gwasanaethau ecosystem (Wynne-Jones 2013b), sy'n dangos y gellir sicrhau manteision ecosystem lluosog trwy weithgareddau cadwraeth ar y fferm os ydynt yn gweithio ar y cyd â nodau cynhyrchu.

Fel y mae ffynonellau eraill wedi ei amlinellu (CCRI 2008; Keenleyside 2013), roedd ffermwyr Pontbren wedi plannu ~120,000 o goed llydanddail brodorol (y mwyafrif wedi eu tyfu ym mhlanhigfa'r grŵp), wedi adfywio 26.5 cilometr o berthi ac wedi creu 20m² o byllau newydd. Maent hefyd wedi codi ffensys o amgylch ardaloedd o wlyptir a choetir llydanddail yn ardaloedd eu ffermydd. Mae data FWPS LIC (2004-7) yn dangos y plannwyd 17.79 hectar o goetir drwy'r prosiect. Mae'r mesurau hyn yn cyfateb i newid i ddefnydd tir o ~1.5% sy'n goetir, i 5% (Keenleyside 2013).

O ran y gwaith plannu hwn, amlygwyd yr hyblygrwydd a rheolaeth grŵp a alluogwyd trwy'r cyllid Enfys fel mantais bwysig a gwers allweddol i'w rhannu. Nodwyd yn eang bod y ffermwyr yn teimlo nad oedd unrhyw gynlluniau arall yn cyd-fynd â'u nodau neu ofynion:

"...nid oedd unrhyw un o'r cynlluniau a oedd yn bodoli eisoes yn briodol. Roeddent yn rhyw anhyblyg ac nid oedd yn bosibl i ni ymuno fel grŵp. Fe'm gadawyd heb unrhyw opsiwn arall heblaw datblygu ein cynllun ein hunain a chwilio am gyllid o ffynonellau eraill." (Roger Jukes, Tyn y Bryn - wedi ei ddyfynnu yn Keenleyside 2013)

"Rwy'n credu ein bod ni eisiau gwneud ein peth ein hunain ac roedden ni eisiau ei wneud fel roeddem ni'n dymuno ei wneud ac nid gorfod ticio'r holl flychau a cheisio cyd-fynd â'r holl reolau neu beth bynnag, dyna oedd y prif beth."

Er bod pob fferm ac eithrio un yn Tir Cynnal, ac roedd rhai wedi bod mewn cynlluniau perthi yn y gorffennol, ni ymunodd yr un ohonynt â Tir Gofal gan eu bod o'r farn ei fod yn rhy gyfyngol ac nad oedd yn addas ar gyfer eu ffermydd. I rai, nid oedd yn bosibl iddynt ymuno gan fod eu harferion yn rhy ddwys ar y pryd; ond mewn llawer o achosion roedd yn ymwneud mwy â'r ffaith nad oedd y ffermwyr yn teimlo'n gyfforddus â lefel y cyfyngiadau a orfodwyd ar eu harfer, a/neu nid oeddent yn teimlo

⁹Dangosir y manteision hyn yn eglur gan y prosiectau ymchwil a nodir yn yr adran gyflwyniadol, a fwyaf diweddar gan arolwg adar magu a gynhaliwyd yn ystod gwanwyn 2013 ar hyd coridorau ochr ffrwd Tyn y Bryn a gofnododd ~40 o wahanol rywogaethau.

bod y manylebau ar gyfer arferion rheoli yn addas ar gyfer eu ffermydd. Parheir yr ymateb hwn yn eu hymatebion mwy diweddar i Glastir. Yma, nodwyd enghreifftiau bod gwasgaru cynydau fel haidd gaeaf neu faip, yn benodol, yn anaddas ar gyfer eu ffermydd gan eu bod yn arbennig o uchel, serth a gwlyb.

“Y rheswm nad oedd y rhan fwyaf ohonom ni eisiau Tir Gofal oedd nad oeddem ni'n cytuno â llawer o bethau. Roedden nhw'n dweud wrthy ch chi ble i roi eich perthi ac nid oedd yn gweithio ar gyfer y stoc. Roeddem ni eisiau plannu perthi, rydym ni wedi byw yma drwy gydol ein hoes, rydym ni'n gwybod o ba gyfeiriad mae'r gwynt yn dod, o ble mae'r eirlaw'n dod ac roeddem ni eisiau i'r perthi weithio i ni...”

Yn gyffredinol, dadleuwyd nad oeddent yn gallu cyflawni arferion rheoli mewn lleoliadau, neu ar adegau, a oedd yn addas ar eu cyfer nhw. O'r herwydd, roedd yn amlwg nad oedd y ffermwyr yn anghytuno â'r manylebau fel dulliau eang, ond eu bod eisiau mwy o reolaeth dros sut y byddent yn cael eu rhoi ar waith i gyd-fynd â'u ffermydd a'u systemau eu hunain. Dyma pam roedd y cyllid Enfys yn gallu cynnig ffynhonnell ariannu ddelfrydol i hwyluso gwaith amgylcheddol, ond mewn ffordd a oedd yn ddigon agored iddynt addasu i'w hanghenion:

“Y cyngor cychwynnol oedd bod y prosiect yn un amaeth-busnes, ond canfuwyd o'i archwilio'n fwy manwl bod y prosiect yn ymwneud â chymuned mewn gwirionedd – er mai dim ond o deuluoedd ffermio – a oedd eisiau gwella eu bywydau a'u busnesau trwy weithio ar y cyd i wella eu hamgylchedd. Nid oedd prosiect Pontbren yn cyd-fynd yn rhwydd â 'meddylfryd-seilo' y rhan fwyaf o strwythurau ariannu - ...un o'r gwersi pwysicaf i'w dysgu oedd faint o hyblygrwydd roeddem ni'n gallu ei greu ar gyfer y prosiect...a'r diffyg rhagnodi pwrpasol o'r llwybrau i'r prosiect eu dilyn er mwyn sicrhau ei allbynnau a benderfynwyd ymlaen llaw, ond hefyd yn bwysicach fyth – i'w alluogi i groesawu a datblygu rhai cwbl annisgwyl hefyd.” (Colin Keyse, Rheolwr Rhaglen Enfys: CGGC)

Yn ogystal â'u rheolaeth dros weithrediad y prosiect, oedd eu gallu i weinyddu'r cyllid a gwerthuso ansawdd y gwaith eu hunain, er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r safonau gofynnol. Cyflawnwyd yr holl weithgareddau hyn o fewn y grŵp, gan ddangos bod y ffermwyr yn gallu rhedeg ac archwilio eu gwaith eu hunain. Trwy hunan-reoleiddio, llwyddodd y grŵp i gadw costau gweinyddol yn isel hefyd (tua 1% yn hytrach na'r 5% o gyfanswm eu cyllid a neilltuwyd gan gyllid Enfys).

Roedd y rheolaeth hon yn bwysig iddynt gan eu bod yn teimlo y gallent gadw rheolaeth dros y prosiect heb gyfaddawdu safonau. Mae'n hysbys y gall ffermwyr fod yn chwerw ac yn anghyfforddus â phobl o'r tu allan yn dod i mewn i archwilio eu ffermydd (gweler e.e. Blackstock et al. 2007). Ond trwy archwilio eu gwaith yn fewnol (penodwyd aelodau penodol o'r grŵp fel arolygwyr) roeddent yn gallu goresgyn y problemau hyn a sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn iawn. Mae effaith gweithio o fewn grŵp o gymheiriaid yn arbennig o nodedig yma fel dylanwad allweddol ar eu gallu i fod yn fanwl gywir a'u huchelgais ar gyfer safonau uchel (gweler hefyd CCRI 2008). Yn yr un modd, dywedodd llawer bod dymeg y grŵp yn hanfodol i'w cyfranogiad yn y gwaith amgylcheddol, yr honnwyd ganddynt na fyddent wedi ei wneud ar eu pen eu hunain. Mae hwn yn bwynt a gaiff ei drafod ymhellach o ran cwestiynau o newid ymddygiad ac agwedd.

“Ni fyddwn i wedi ei wneud ar fy mhen fy hun nid wyf yn credu, ond mae'r gwithio ymlaen a gweithio i amserlenni a phethau felly, ie. A byddech chi'n gweld, o edrych ar [fferm ei gymydog], mae e'n gwneud yn dda bydd rhaid i mi fynd ati i wneud rhywfaint.”

Un pwynt olaf i'w nodi yw lefel y manteision amgylcheddol a sicrhawyd, y mae llawer o'r ffermwyr yn eu cymharu ag effeithiau cynlluniau eraill:

“Roedd Tir Cynnal yn gyfle mawr a gollwyd. Gallasen nhw fod wedi gwneud cymaint mwy gyda'r arian yna, hyd yn oed pe baent wedi dweud y byddent yn rhoi arian cyfatebol ar gyfer pob punt rydych chi'n ei wario... bydden nhw'n rhoi'r arian i ni am wneud ychydig iawn a dweud y gwir. Roedd cymaint o gyfle yna a byddai pobl wedi codi ffensys o amgylch perthi a nentydd a phob mathau o bethau.”

“Mewn llawer o achosion, mae'n fater o wneud pethau i gael pwyntiau i gael i mewn, nid fel mantais..”

Mae hyn yn codi cwestiynau am ychwanegolrwydd cynlluniau eraill os yw ffermwyr yn cael eu talu i gynnal defnydd o dir yn unig ac nad ydynt yn gwneud gwaith yn ymarferol (gweler hefyd AWC 2007).

Mantais amgylcheddol arall sy'n bwysig ei chydnabod yw ansawdd y stoc goed a dyfwyd yn y blanhigfa yn y Belan. Roedd y blanhigfa goed yn fenter sydd â nifer o fanteision, gan helpu i leihau costau a galluogi arallgyfeirio ar y fferm dan sylw. Ond y fantais fwyaf oedd y gallu i dyfu rhywogaethau coed a addaswyd yn lleol, a dyfodd yn llawer gwell na stoc a fewnforiwyd wedyn. Mae'r manteision ym Mhontbren yn eglur, ond ar adeg pan fo bioddiogelwch yn bryder cynyddol, mae gan swyddogaeth planhigfeydd coed lleol berthnasedd llawer ehangach. Un o'r prif ffactorau a amlinellwyd gan y ffermwr ar gyfer peidio parhau â'r busnes hwn oedd y diffyg parhad o ran cefnogaeth y llywodraeth i gynlluniau plannu coed cenedlaethol. Felly nid oedd galw bellach am y blanhigfa goed yn y Belan na llawer mwy o rai tebyg iddi. Ers hynny, mae angen am gyflenwad lleol wedi dod i'r amlwg eto, sy'n ail-bwysleisio'r neges ehangach ar gyfer parhad cynlluniau a pholisi y mae'r ffermwyr wedi ei phwysleisio.

Manteision Cymdeithasol a Chymunedol

Ystyriwyd bod gweithredu fel grŵp wedi sicrhau manteision ariannol pwysig hefyd, trwy rannu costau a llafur a thrwy eu galluogi i brynu eitemau fel deunydd ffensys mewn swmp. Yn gyffredinol, er y pwysleisiwyd y pwysigrwydd o gynnal eu hunaniaeth a'u gallu i wneud penderfyniadau fel busnesau unigol, cydnabuwyd hefyd bod llawer o fanteision i weithio cydweithredol a allai gefnogi gwydnwch parhaus y ffermydd i'r dyfodol.

“gwendid ffermio ac amaethyddiaeth yw nad oes llawer o fudiadau cydweithredol ym myd ffermio. Maen nhw i gyd yn fusnesau unigol ac maen nhw i gyd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd... ond mae cydweithrediad yn sicr wedi gwella yn ystod y 10 mlynedd diwethaf rhwng ein 10 fferm, rwy'n credu.”

Fodd bynnag, fel y pwysleisiwyd yn yr adran ar farchnata cig, ni ystyrir bod gweithio fel menter gydweithredol sy'n cynhyrchu a/neu brynu yn ateb syml i'r heriau y mae'r grŵp yn eu hwynebu.

Yn olaf, nodwyd dynameg cymdeithasol gwell y grŵp gan yr holl ffermwyr fel un o fanteision allweddol y prosiect. Mae'r ffermydd wedi dod yn llawer agosach o ganlyniad i'r prosiect a'u cyfarfodydd a'u digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd. Mae hyn i'r graddau eu bod bellach yn llawer mwy cyfforddus yn trafod pryderon a gofidion, ac yn troi at ei gilydd am help. Rhoddwyd llawer o enghreifftiau o hyn – yn ymwneud yn benodol â heriau'r tywydd yn y blynyddoedd diwethaf – gan y ffermwyr mewn cyfweliadau.

“...gan ein bod yn gymdogion agos, roeddem ni'n amlwg yn adnabod ein gilydd...ond mae'r ffaith ein bod i gyd yn byw bywydau prysur ar wahân yn golygu nad oeddem ni byth yn gweld ein gilydd, ond daeth hyn â ni'n agosach at ein gilydd... nawr rwy'n teimlo os rwy'n gwneud ychydig bach o rywbeth yna os oes angen rhywbeth arnaf i gallaf ofyn yn ôl. A yw hynny'n gwneud synnwyr i chi? Nid wyf yn teimlo fel niwsans tra y byddwn i wedi o'r blaen ac mae'n debyg na fyddwn i wedi gofyn.”

Mae arwahanrwydd bywydau ffermio cyfoes yn adnabyddus, ynghyd â'r heriau cymdeithasol a lles y gall hyn ei greu. Mae swyddogaeth Prosiect Pontbren wedi bod yn hanfodol, felly, yn ei swyddogaeth o ddod â ffermwyr i gysylltiad mwy rheolaidd, fel y gallent ddatblygu rhwydwaith cefnogaeth cryfach. Cymharodd un ffermwr hyn â swyddogaeth y capel i'r genhedlaeth hŷn, ac amlygodd yr holl ffermwyr y swyddogaeth hanfodol y cyflawnodd hyn i'w cynnal yn ystod argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau, a ddigwyddodd dim ond ychydig o amser ar ôl i'r grŵp ffurfio.

“Rydym ni wedi bod yn llawer agosach fel cymdogion nag oeddem ni. Y genhedlaeth ddiwethaf, capel oedd eu peth nhw...rwy'n credu yma y gallwn ni weld bod Pontbren wir wedi dod â'r deg cymydog yn agos iawn at ein gilydd. Roedd yn debyg i'r hyn rwy'n siŵr oedd y capel i'm rhieni.”

Roedd y potensial i'r dynamig cymdeithasol cryfach hwn, yng nghyd-destun ehangach dirywiad cymunedau gweledig a straen cymdeithasol cysylltiedig, hefyd yn hanfodol iddynt sicrhau'r cyllid Enfys:

“ar yr adeg y cyrhaeddodd y cais (Pontbren), roedd cydweithiwr yn eistedd ar draws y swyddfa oddi wrthyf i yn gweinyddu cynllun grant brys a gynlluniwyd i leddfu straen ac arwahanrwydd yn y gymuned ffermio o ganlyniad i Glwy'r Traed a'r Genau - a dyma lle'r oedd grŵp o ffermwyr yn cyflawni'r union ganlyniad hwnnw dim ond trwy helpu cymdogion i weithio gyda'i gilydd ar brosiect a gynlluniwyd i fod o fudd i'w hamgylchedd a'u heconomi leol” (Colin Keyse - CGGC)

O'r herwydd, mae'n bwysig gwerthfawrogi'r manteision cymdeithasol hyn fel mwy na manylyn, ond fel rhwyd diogelwch hanfodol roedd y ffermwyr wedi ei greu iddynt eu hunain, i'w cefnogi trwy effeithiau cymdeithasol a seicolegol gwaethaf Clwy'r Traed a'r Genau.

Nodwyd y bywyd cymdeithasol bywiog maent wedi ei fwynhau o ganlyniad i'r prosiect fel rheswm allweddol am eu hymrwymiad parhaus iddo hefyd, ac mae wedi cael effeithiau cymdeithasol ehangach trwy gydol y gymuned leol, gan gynnwys eu swyddogaethau ar Bwyllgor Cymunedol Rhiwhiriaeth ac ymweliadau ysgolion lleol â'r ffermydd.

Fel y mae CCRI (2008) hefyd yn ei nodi, roedd llawer o'r grŵp yn awyddus i amlygu bod llawer o gyllid y grŵp wedi mynd i gontractwyr a chyflenwyr lleol. Maent yn cofio cyflogi gwasanaethau cyfanswm o 27 o gontractwyr lleol. Meibion ffermwyr a oedd â'u tyddynnau a'u peiriannau eu hunain oedd y rhain yn bennaf. Hefyd, prynodd y grŵp ddeunyddiau ffensys mewn swmp gan gwmni lleol. O gyllid cynllun Enfys o £98,000 a'r arian cyfatebol cysylltiedig, aeth £172,000 i gontractwyr lleol a £131,000 i gyflenwyr lleol (CCRI, 2008). Fel y cyfryw, gallwn weld bod effaith lluosydd pwysig, o ran y manteision economaidd ehangach yr oedd ffermwyr yn gallu eu hailddosbarthu i'r gymuned ehangach wedyn, ond hefyd y manteision cymdeithasol maent yn eu creu trwy gyfrannu eu hegri at sefydliadau cymunedol lleol. Mae pwysigrwydd y dosbarthiad lleol hwn o gyfalaf yn hanfodol i wydnwch cymunedau anghysbell ac wedi bod yn destun gwerthusiadau ehangach (e.e. NEF 2002¹⁰) sy'n ail-bwysleisio'r angen i gynyddu trafodion lleol.

Hwyluso

Tra nodwyd annog dymameg grŵp a swyddogaeth flaenllaw'r ffermwr cychwynnol fel ffactorau allweddol o ran cefnogi'r grŵp i wneud newidiadau buddiol, ystyriwyd bod swyddogaeth hwyluso Coed Cymru yn arbennig o bwysig:

“fel unigolion, mae'n debyg na fyddai clem gennym ble i fynd neu ddechrau ond gallai [Coed Cymru]... siarad â'r person hwn neu'r person yna. Rydych chi angen rhywun sy'n deall pethau fel petai a pha ffordd i'ch cyfeirio, neu fel arall byddwch chi'n rhedeg o gwmpas mewn cylchoedd ac nid ydych chi'n gwybod i ble ddiawl rydych chi'n mynd, ond dim ond yr un person sydd ei angen a dweud y gwir, rhywun i hwyluso.”

Nodir pwysigrwydd hwyluswyr a chynghorwyr da ar draws y llenyddiaeth ar grwpiau ffermwyr a gwaith cydweithredol (Blackstock et al. 2007; CCRI 2008). Yn yr achos hwn, roedd cynrychiolwyr Coed Cymru yn hanfodol ar gyfer nodi ffynonellau ariannu priodol a gwneud cysylltiadau gyda chynulleidfaoedd polisi priodol ac asiantaethau cysylltiedig. Trwy gydol y broses o ddatblygu'r gwaith plannu, cynigiodd Coed Cymru gyngor hanfodol ar weinyddu a mapio System Gwybodaeth Ddaearyddol y gwaith plannu hefyd. Fel y cyfryw, roeddent yn gallu cefnogi a llywio'r ffermwyr drwy'r rhwystrau biwrocraidd a allai fod wedi atal gwireddiad y prosiect fel arall. Nid yw hyn yn tynnu oddi wrth ddylanwad hollbwysig y ffermwyr eu hunain, a'r penderfyniadau a wnaethpwyd ganddynt ynglŷn â sut a ble y dylai'r gwaith plannu gael ei wneud. Ond roedd yn eglur bod hwylusydd cynorthwyol â'r sgiliau a'r cysylltiadau angenrheidiol wedi bod o fudd i'r prosesau trafod yn ystod datblygiad y prosiect, er na ddibynnwyd arno bob amser.

¹⁰ Gweler <http://www.pluggingtheleaks.org/>

Hyd yn hyn, mae'r gefnogaeth hon wedi canolbwyntio'n helaeth ar faterion a oedd yn newydd i'r ffermwyr (ceisiadau am grantiau a phlannu coed). Ond, dadleuwyd hefyd y gallai hwylusydd fod yn ddefnyddiol ar gyfer feysydd eraill o ddatblygiad busnes fferm. Amlinellwyd yma y defnydd o benodi rhywun i wneud gwaith ymchwil ar opsiynau a chyfleoedd busnes sydd ar gael rhwng cyfarfodydd fel swyddogaeth gynorthwyol bwysig. Er bod rhywfaint o bryder y gallai cynghorydd a oedd yn cael ei dalu i gynnig cefnogaeth o'r fath wthio syniadau nad oeddent yn briodol, a / neu na fyddai'n cyd-fynd ag anghenion y ffermwyr, roedd rhai o'r grŵp yn meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol cael unigolyn allanol i gynorthwyo a chydgysylltu trafodaethau a syniadau datblygu. Ystyriwyd yr opsiwn o gael cymorth o'r fath yn gynnar yn natblygiad y grŵp ond ni phenderfynwyd dilyn y trywydd hwnnw ar y pryd. Wrth fyfyrion ar y mater hwn nawr, roedd rhai yn teimlo y gallai wedi bod o fantais cael cefnogaeth o'r fath. O ystyried hyn ar y cyd â'u sylwadau ar ddatblygu strategaethau busnes cydweithredol, byddai'n ymddangos bod rhywfaint o botensial i'r grŵp archwilio'r cyfleoedd hyn ymhellach.

Wrth fyfyrion ar botensial cefnogaeth Agrisgop i gynorthwyo'r grŵp, roedd yn amlwg bod gan y ffermwyr rai amheuan yn seiliedig ar eu harsylwadau o brofiadau pobl eraill. Er nad yw hyn yn adlewyrchu gwerthusiadau ehangach o ansawdd gwasanaethau Agrisgop neu Cyswllt Ffermio (cf. SQW 2011), mae'r pwysigrwydd i'r grŵp allu penodi hwylusydd roeddent yn teimlo'n hyderus ynddo, ac i'r broses gynghori weithio'n unol â'u hanghenion yn gwbl amlwg.

4.2: Effeithiau'r Arolwg Busnes Fferm

Yn rhan o'r rhaglen ddadstocio a ariannwyd gan LIC, casglwyd data ariannol yn flynyddol ar gyfer bob fferm gan yr uned Arolwg Busnes Fferm (ABFf) yn Aberystwyth ac fe'i rhannwyd gyda'r ffermwyr. Mae adroddiad y CCRI (2008) yn nodi bod y ffermwyr o'r farn bod hyn yn 'hynod ddefnyddiol'. Yn y cyfweiliadau a gynhaliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, cafwyd adborth cadarnhaol gan y mwyafrif, a dywedodd rhai ffermwyr eu bod wedi gwneud addasiadau i'w systemau fferm o ganlyniad i adolygu'r data. Yn benodol, nodwyd bod y gost uchel o gadw gwartheg yn rhywbeth roeddent wedi cael synnwyr ohono eisoes cyn yr ABFf, ond roedd gweld y ffigurau wedi eu gwneud i ail-werthuso eu rheolaeth er mwyn lleihau'r costau.

“Mae wedi fy helpu. Gallaf weld bod fy nefaid yn gwneud arian ac nad yw'r gwartheg. Felly rydym ni wedi lleihau ein buchod sugno...”

Nid oedd hwn yn fater syml gan fod y ffermwyr a oedd yn cadw gwartheg oll yn cytuno bod system gymysg yn well i'r tir a'r stoc, ond roeddent yn gynyddol ystyriol o'r costau. O ganlyniad, roedd rhai o'r grŵp naill ai wedi lleihau niferoedd y gwartheg neu ailystyried eu systemau – eu gwerthu'n gynharach a pheidio â'u tewhau er enghraifft. Fodd bynnag, roedd y grŵp yn awyddus i nodi nad yw'r manteision o gadw gwartheg yn hawdd eu mesur gan ddefnyddio data ariannol yn unig, o ystyried y synergeddau yn eu systemau ffermio a ddarperir gan y gwartheg, a'r ystyriaeth o'r costau cyfalaf y byddai'n rhaid eu talu pe baent yn rhoi'r gorau i gadw gwartheg ac yna'n gorfod dechrau eto. O ganlyniad, rhybuddiodd rhai aelodau'r grŵp am roi sylw i'r data busnes yn unig heb fyfyrto cytbwys ar y stociau a'r llifoedd nad ydynt yn ariannol.

Er y cafeat hwn, roeddent yn gadarnhaol am yr ABFf fel arall, a dywedodd hyd yn oed y ffermwyr nad oeddent wedi gwneud newidiadau bod y ffigurau'n ddefnyddiol iawn. Yn benodol, amlygwyd ganddynt y pwysigrwydd o weld faint roedd y busnes yn ei wneud a faint oedd yn dod i mewn o gymorthdaliadau a thaliadau eraill, a wnaeth eu hysgogi i ystyried sut i gryfhau eu ffrydiau incwm yn y blynyddoedd i ddod. Roedd nifer o ffermydd wedi gwneud gwaith monitro busnes yn y gorffennol, trwy'r Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol er enghraifft, neu wedi parhau i fonitro, e.e. trwy wasanaeth meincnodi Dairy Co. Ond nodwyd yn eglur bod defnyddio'r ABFf wedi galluogi ffermwyr i feincnodi yn erbyn mathau tebyg o fusnes yng Nghymru.

Un pryder olaf y dylid ei nodi oedd bod aelodau'r grŵp yn aml yn teimlo na allent wneud newidiadau sylweddol, er eu hymwybyddiaeth fusnes gynyddol, gan fod eu lleoliad a gallu'r tir yn eu cyfyngu.

“...rydym ni fwy neu lai wedi parhau fel rydym ni wedi ei wneud erioed a dweud y gwir, gan ein bod wedi ein cyfyngu braidd o ran yr hyn y gallwn ei wneud ar yr ucheldir yma, byddwn yn dweud. Naill ai gwartheg eidion neu ddefaid yw hi, a dyna ni fwy neu lai. Rwy'n credu ei fod wedi ein gwneud i sefyll a syllu ac edrych ar yr hyn rydym ni'n ei wneud efallai a pham rydym ni'n ei wneud. Mae'n rhaid i chi ofyn i'ch

hun weithiau pam rydych chi'n ei wneud. Ond ni fu unrhyw newidiadau mawr i'r cynllun."

Mae hwn yn safbwynt cyffredin ymhlith ffermwyr ucheldir ledled Cymru (AWC 2012). Er bod enghreifftiau o arallgyfeirio llwyddiannus iawn ledled Cymru, gan gynnwys rhai o'r rhai yng ngrŵp Pontbren, roedd y ffermwyr yn teimlo bod y llwyddiannau hyn wedi eu cyfyngu i'r rhai sydd â'r cyfalaf a'r lleoliadau priodol i wireddu'r syniadau hyn (gweler hefyd AWC 2012).

"Mae gennych chi bobl fel Stad Rhug i fyny yng Nghorwen, maen nhw'n organig, maen nhw ar ochr y ffordd ac yn denu'r holl draffig yna ac rydych chi'n gwybod faint maen nhw wedi ei wario, mae'n ŵr cyfoethog, mae wedi gwario llawer o arian ar bethau eraill i ddenu'r plant i mewn ac mae'n ymddangos eu bod nhw'n gwneud yn dda iawn. Ond nid oes llawer ar y lefel honno nac oes? Nid yw'r traffig gennym ni y ffordd yma ac.... Wel, ni allwn ni ei wneud, fwy neu lai ..."

4.3: Cynllunio Olyniaeth Fferm

Mae cynllunio olyniaeth a denu newydd ddyfodiaid i fyd ffermio yn fater pwysig i ddyfodol amaethyddiaeth Cymru, ac mae'n amlwg nad yw llawer o ffermydd ledled wedi paratoi'n briodol neu nad ydynt yn mynd i'r afael â'r materion hyn (AWC 2013)¹¹. Gan fod grŵp Pontbren wedi dangos arloesedd sylweddol mewn agweddau eraill ar eu harfer, roedd gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn gwybod a oedd eu cynllunio olyniaeth yn adlewyrchu'r dull blaengar hwn hefyd ac a oedd ganddynt unrhyw wersi i'w rhannu.

I'r mwyafrif o ffermydd, nid yw'r prosiect wedi arwain at unrhyw newidiadau i gynlluniau olyniaeth, o ran effeithio pwy fydd yr olynnydd yn debygol o fod. Ond mae wedi arwain mewn un achos at fwy o gyswllt rhwng dau deulu ffermio lle nad oes olynnydd wedi ei nodi ar gyfer un fferm ac y disgwylir i fab gymryd drosodd ar y llall, i'r graddau lle hoffai'r ffermwr nad oes ganddo olynnydd brydlesu tir i'r teulu arall yn y dyfodol. Roedd y ffermwr heb olynnydd yn eglur na fyddai'n ddymunol prydlesu eu tir i ddieithryn, gan y byddai'n ormod o dresbasiad ar eu bywydau a'u preifatrwydd, ond gan eu bod wedi datblygu perthynas gref â'r ffermwr iau drwy'r prosiect, mae hyn wedi creu cyfle na fyddai wedi digwydd fel arall.

O'r ffermydd eraill, mae gan rai gynlluniau olyniaeth eglur, ac mae teulu agos (meibion / merched / neiaint) wedi eu nodi i gymryd drosodd maes o law, tra bod eraill yn cydnabod bod angen iddynt ystyried y cwestiwn o olyniaeth ymhellach nawr gan eu bod wedi dechrau meddwl am ymddeol.

Un ffordd y mae'r prosiect wedi gwneud gwahaniaeth i gynlluniau ar gyfer y dyfodol yw trwy annog rhai o'r ffermwyr i fod yn fwy agored i syniadau newydd a rhoi cynnig ar wahanol gynlluniau, sydd wedi eu helpu wedyn i ystyried sut y gellir cefnogi eu holynwyr trwy gynlluniau ac arallgyfeirio busnes. O'r herwydd, ceir rhywfaint o dystiolaeth bod ffermwyr Pontbren wedi bod yn fwy rhagweithiol o ran datblygu a mynd i'r afael ag olyniaeth a chynllunio cysylltiedig ar gyfer y dyfodol nag efallai y byddent wedi bod fel arall.

“Mae gennym fab 18 oed sydd â diddordeb mewn ffermio. Mae'n gwneud y cwrs Amaethyddol yn y Drenewydd. Mae'n gweithio ar fferm arall fel lleoliad nawr. Dyna'r prif reswm, mae'n debyg na fyddem ni wedi ymuno â Glastir os mai dim ond ni oedd yna, ond o weld y genhedlaeth nesaf yn dod i mewn rydym ni'n trio...”

¹¹ Gweler er enghraifft <http://farmingconnect.menterabusnes.co.uk/cyswlltffermio/newyddion/cynllunio-olyniaeth-ar-ffermydd-teuluol-cymru> [defnyddiwyd ddiwethaf ar 24/2/14].

4.4: Newid Ymddygiad ac Agwedd

Adnabyddir Prosiect Pontbren ymhlith yr arbenigwyr gwasanaeth cynghori ffermydd a rheoli dalgylchoedd yng Nghymru fel esiampl o arloesedd busnes fferm ac arfer amgylcheddol da (AWC 2013)¹². Mae'n bwysig felly myfyrio ar y graddau a'r ffyrdd y mae'r prosiect wedi bod yn gyfrifol am newid ymddygiad o fewn y grŵp.

Adroddwyd yn eang yn y cyfweiliadau a'r llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes na fyddai'r prosiect wedi mynd yn ei flaen heb swyddogaeth ddylanwadol y ffermwr cychwynnol a'i bartner. Yn yr un modd, nodwyd cefnogaeth Coed Cymru i hwyluso, cynghori a gweithredu fel brocer rhwng y grŵp ac asiantaethau allanol fel ffactor penderfynu allweddol o ran rhoi'r prosiect ar waith hefyd. Fel y cyfryw, mae angen gwerthfawrogi'r arloesedd a'r newidiadau i ymddygiad ac agwedd a sicrhawyd trwy Bontbren yng ngoleuni swyddogaeth hollbwysig yr unigolion allweddol hyn.

Hefyd, ymhlith aelodau'r grŵp ehangach, roedd gwahaniaeth o ran y dnameg cymdeithasol a'r swyddogaethau a gyflawnwyd, ac i rai mae'r newidiadau a welwyd yn ystod y prosiect wedi bod yn llawer mwy ac yn amlwg yn wahanol i safbwynt pobl eraill. O'r herwydd, dylid ystyried newid agwedd ac ymddygiad ar sail unigol yn ogystal ag ar sail grŵp.

O ran agweddau ac ymddygiad amgylcheddol, adroddodd y CCRI yn 2008 bod prosiect Pontbren wedi galluogi'r ffermwyr i wella eu gwybodaeth amgylcheddol a dysgu sgiliau newydd drwy'r gwaith plannu coed a pherthi. Hefyd, nodwyd bod y rhyngweithio gyda Coed Cymru a rhanddeiliaid eraill sy'n cyflawni gweithgareddau ymchwil ar ffermydd wedi galluogi'r grŵp i ddysgu mwy am goed, bioamrywiaeth a hydroleg. Cadarnhawyd y canfyddiadau hyn yn y cyfweiliadau a gynhaliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, a nododd mwyafrif y grŵp eu hymwybyddiaeth gynyddol o fioamrywiaeth ar y ffermydd, gan wneud sylwadau ar y cynnydd cymharol yn sgil gwella cynefinoedd ond hefyd y newidiadau i'w safbwyntiau, wrth iddynt ddatblygu mwy o ddealltwriaeth o'r bywyd gwyllt sy'n bresennol.

“Ni chymerais unrhyw sylw o gwbl o'r blaen, ond mae gennym ni ysbieddych hyd yn oed erbyn hyn, rydym ni hyd yn oed wedi adeiladu tŷ coeden bach fel y gallwn ni fynd allan fin nos dim ond i wyllo... Mae'n anhygoel y bywyd gwyllt sydd i lawr yna ac rwy'n tybio na allem ni ei weld gan ein bod yn byw gyda fe, ond mae wedi ein gwneud yn fwy ymwybodol mewn gwirionedd. Mae wedi newid fy safbwynt yn llwyr ar bopeth a byddwn yn credu y gallai hynny ond fod o les.”

Fodd bynnag, efallai nad yw'n syndod bod eu diddordeb wedi ei gyfyngu i'r rhywogaethau mwy carismatig, ac nad yw'n ymestyn i gynnwys 'plâu' fel moch daear, llwynogod a llawer o adar ysglyfaethus. Mae hefyd yn nodedig bod y ffermwr wedi mynegi uchelgais i gynyddu bioamrywiaeth fel un o amcanion cychwynnol y prosiect mewn gwerthusiadau cychwynnol a gynhaliwyd gyda Dr. Tim Pagella (Pagella 2011), sy'n dangos er bod dyfnder eu gwybodaeth a'u gwerthfawrogiad yn sicr wedi cynyddu, nid ydynt wedi newid eu tybiaeth o'r amgylchedd yn sylweddol.

¹² Gweler hefyd <http://www.monbiot.com/2014/01/13/drowning-in-money/> ar gyfer cyfeiriadau ehangach yng nghyfyngau'r DU at Brosiect Pontbren [defnyddiwyd ddiwethaf ar 24/2/14].

Mae hefyd yn nodedig nad yw'r grŵp wedi newid ei agwedd tuag at swyddogaeth a dynameg y gwaith amgylchedd a chadwraeth yn rhan o fferm weithio; h.y. maent yn teimlo bod angen gwneud gwaith amgylcheddol mewn ffordd weithredol sy'n cefnogi fferm weithio i gynhyrchu bwyd. Nid yw hyn yn rhoi pwyslais normadol ar eu safbwynt, ond yn amlygu'n syml bod eu hagweddau gwreiddiol tuag at ffermio a'r ffyrdd y mae ffermwyr yn addasu ac yn newid y dirwedd wedi aros yn gymharol gyson. Mae'n werth cofio yma mai amcan gwreiddiol y prosiect oedd cefnogi busnesau fferm mwy cynaliadwy, ac y cyflawnwyd y gwaith amgylcheddol a wnaed i gynyddu cynhyrchiad cig oen a chig eidion.

Serch hynny, maent wedi newid eu barn ar rai agweddau ar eu harfer, yn enwedig cyfraddau stocio. Yn hyn o beth, er ei bod yn amlwg y gallai aelodau'r grŵp weld yr angen i leihau cyfraddau stocio ar y cychwyn, ni fyddent wedi gwneud hynny heb y cymhellion ariannol. Hefyd, wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, fe wnaethant barhau i ddadlau y byddent yn dychwelyd i gyfraddau stocio uwch heb barhad y taliadau. Nawr, fodd bynnag, mae'n ymddangos bod eu hagweddau wedi newid wrth i gynaliadwyedd eu systemau ffermio diwygiedig ddod yn fwy amlwg. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd profiad ymarferol, a'r cyfle i arbrofi a dod i'w casgliadau eu hunain:

“Roeddwn i'n arfer meddwl mai llawer o stoc oedd y ffordd ymlaen, ond nid yw hynny'n wir. Ni fyddwn wedi darganfod am hyn [heb y prosiect] ni fyddai'r arian wedi bod gen i ar gyfer y mamogiaid... Yr hyn a wnaeth oedd dod â chymaint o ŵyn i mi a glaswellt nad oedd gen i gynt... ond mae'n rhaid i chi gael eich caniatáu i roi cynnig ar y pethau hyn er mwyn gallu darganfod.”

Dyweddodd rhai o'r grŵp hefyd eu bod yn fwy agored i newid bellach a bod ganddynt ddiddordeb cynyddol mewn ystyried gwahanol gyfleoedd sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, mae rhai a oedd yn gwrthwynebu bod mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd gynt bellach yn teimlo'n fwy hyderus a chyfforddus gyda gofynion y cynlluniau ac felly wedi penderfynu ymuno â chynlluniau Glastir¹³. I eraill, mae hyn yn amlwg yn eu hymwybyddiaeth gynyddol o wahanol gyfleoedd busnes (a chynlluniau grant cysylltiedig), a'u penderfyniadau i fanteisio ar y cyfleoedd hyn. Fodd bynnag, mewn sawl ffordd, mae'n amlwg nad yw'r prosiect wedi newid yn sylfaenol patrymau ymddygiad neu werthoedd a oedd yn bodoli eisoes, ond wedi cefnogi a galluogi'r ffermwyr i ddatblygu priodweddau a thueddiadau a oedd yno eisoes.

Lle mae newid sylweddol yn amlwg, fe'i geir yn eu hymddygiad fel grŵp. Er bod y ffermwyr i gyd yn ffrindiau (ac yn berthnasau mewn rhai achosion) cyn y prosiect, mae eu gallu i weithio'n gydweithredol fel grŵp wedi newid yn sylweddol. Dywedodd pob un ohonynt eu bod yn llawer mwy tebygol bellach o ofyn am gefnogaeth gan ei

¹³ Mae'n bwysig pwysleisio yma nad oedd nifer o'r lleill nad ydynt wedi ymuno â Glastir yn gallu gwneud hynny yn y lle cyntaf, gan eu bod eisoes wedi gwneud y gwaith amgylcheddol y byddai'n ofynnol iddynt ei wneud ar gyfer Glastir trwy brosiect Pontbren ac nid oeddent yn teimlo eu bod eisieu creu mwy o gynefin yn ychwanegol i hynny. Er bod gofynion y cynllun wedi newid bellach, ac y gallai fod cyfle i ymuno, nid ydynt yn barod i roi cynnig arall arni eto ar ôl y siom a'r rhwystredigaeth gychwynnol hon. I eraill, ni ystyrir bod y cynlluniau'n briodol o hyd.

gilydd a chydweithio i ddatrys problemau, sy'n newid amlwg o'u hymddygiad blaenorol ac ymddygiad llawer o ffermwyr ledled Cymru a'r DU yn ehangach (Blackstock et al. 2006; CCRI 2008; Sutherland a Burton 2011). Fel y mae Pagella (2011) yn amlinellu: "mae ffermwyr Pontbren wedi newid eu fframwaith cefnogaeth gymdeithasol yn sylweddol ac wedi dangos ymddygiad allgarol at ei gilydd ac wedi sicrhau manteision trwy gydweithredu â'i gilydd".

Maent hefyd yn nodi eu bod wedi dysgu *sut* i weithio gyda'i gilydd yn llawer gwell, drwy'r broses o gyfarfod yn rheolaidd a gorfod cyfaddawdu ar faterion fel prynu deunydd ffensys fel grŵp. Nid yw hon wedi bod yn broses syml, ac mae'n amlwg nad yw bob amser wedi bod yn ddiraffferth neu'n rhwydd cydweithredu mewn ffordd o'r fath, ond mae eu llwyddiant i weithio gyda'i gilydd yn sylweddol yng nghyd-destun ehangach y nifer isel o fentrau ffermio cydweithredol yn y DU (Co-operatives UK 2012).

"Cydweithrediad yw e mewn gwirionedd, ac mae'n anodd. Ni allwch chi wir ei gopio. Mae'n rhaid i chi gyd gyd-dynnu a bod eisiau'r un pethau a gwrando. Weithiau, gallaf fynd o gyfarfod ac nid yw wedi bod o unrhyw fudd i mi...ond nid ydych chi'n gwybod hynny oni bai eich bod chi'n mynd, ydych chi? Gallwch ddychmygu y byddai rhai pobl yn mynd i ffwrdd a dweud 'Nid yw hyn i mi' a rhoi'r gorau iddi'n syth."

"roedd pob un ohonom yn adnabod ein gilydd ymlaen llaw. Roeddem ni'n gwybod pwy oedd yn ystyfnig a phwy oedd yn drugarog ac mae pob un ohonom ni'n ystyfnig yn ein ffordd ein hunain ar wahanol bynciau, ac mae'n rhaid i chi gredu a bwrw ymlaen â phethau a gwneud a chyfaddawdu... Fe wnaeth pawb gyfaddawdu mewn un ffordd neu'r llall."

Yn yr un modd, mae'r ffaith nad yw'r grŵp wedi gweithio fel menter gynhyrchu cydweithredol yn unig wedi dangos bod ganddynt wahanol ganolbwynt ac ysgogiad i'r rhan fwyaf o fentrau ffermio cydweithredol yng Nghymru (CCRI 2008), sy'n profi eu bod wedi gallu dod at ei gilydd ar amrywiaeth ehangach o faterion na gwerthu a marchnata cynnyrch.

Yng ngoleuni eu hymatebion yn y cyfweiliadau, awgrymir bod y gallu i gynnal annibyniaeth yn y rhan fwyaf o'u penderfyniadau busnes, ond dod at ei gilydd o ran rhai agweddau, wedi bod yn bwysig i lwyddiant y grŵp.

"rydym yn dal i hoffi bod yn unigolion onid ydym, dyna'r drafferth gyda ffermio, bod ffermwyr yn hoffi gwneud ein peth ein hunain."

Mae hyn wedi sicrhau y gellir rhedeg pob fferm yn annibynnol, gan gynnal rheolaeth pob ffermwr unigol, ond eu galluogi i gydweithredu ar feysydd cydfuddiannol. Mae'n nodedig yma bod gwahaniaethau rhwng agweddau'r ffermwyr tuag at weithio grŵp, â gwahanol safbwyntiau ac ysgogwyr. Er enghraifft, mae'n bwysig sylweddoli bod grwpiau o fewn y grŵp cyffredinol sy'n dod at ei gilydd am wahanol resymau; ac mewn rhai achosion mae llwyddiant wedi dod o allu rhai aelodau o'r grŵp i gyfaddawdu mwy nag eraill ar faterion penodol, er bod y grŵp yn teimlo'n gyffredinol bod gwahanol fuddion yn cydbwyso yn gyffredinol, os nad ym mhob achos.

Gan fyfyririo ar lwyddiant eu gwaith cydweithredol, mae'r ffermwyr yn pwysleisio'r ffaith eu bod yn cyd-dynnu eisoes, ac yn amlygu efallai na fyddai llawer o gymdogion yn gallu bwrw ymlaen â pherthynas o'r fath. Nid yw'n rhwydd copïo eu llwyddiant felly; ond ystyriwyd bod rhai o'r dulliau, fel cyfarfodydd rheolaidd a hwylusydd da yn ffactorau allweddol yn eu llwyddiant (gweler hefyd CCRI 2008). Roedd dod at ei gilydd dros ddiddordeb cyffredin a chael eu gwahodd gan gymheiriaid yn hytrach nag asiantaethau allanol hefyd yn amlwg fel ffactorau pwysig. Yn yr un modd, roedd y ffaith bod y grŵp yn cyfarfod yn gymdeithasol ac yn mwynhau eu hunain yn golygu bod yr agweddau mwy beichus a diflas ar weithio mewn grŵp yn cael eu cydbwysu.

“Y prif beth sydd wedi ein cadw'n rhan o'r grŵp? Rydym ni wedi cael llawer o hwyl. Mawredd mawr. Yn ôl ar adeg clwy'r traed a'r genau, ni oedd yr unig bobl roeddem ni'n eu gweld yr adeg honno am ddwy flynedd efallai, gan fod popeth arall wedi ei ganslo ...Rydym ni wedi cael barbiciws a phethau felly ...digonedd o nosweithiau cymdeithasol. Rydym ni wedi cael hwyl. Rydym ni'n cyrraedd Tyn y Bryn ac yn eistedd o gwmpas y bwrdd gyda phaned o de ... Rydym ni wedi cael nosweithiau da a rhai nosweithiau gwael lle nad ydym yn cytuno'n llwyr ond rydym ni'n datrys pethau. Ni allaf fyth ddweud fy mod i wedi gadael cyfarfod ac wedi bod yn siomedig.”

Mae hefyd yn arbennig o nodedig bod yr holl ffermwyr yn dweud na fyddent wedi gwneud y gwaith amgylcheddol pe na baent yn y grŵp. Esboniwyd ganddynt yma, yn gyntaf, mai gweithredu fel grŵp sicrhaodd eu cyllid ond, yn yr un modd, mae'n debyg na fyddent wedi penderfynu cymryd rhan heb anogaeth a chefnogaeth y grŵp. Mae'r CCRI (2008) hefyd yn amlygu effaith dynameg gymdeithasol a 'phwysau gan gymheiriaid' fel ffactorau allweddol o ran safonau uchel y gwaith amgylcheddol, a oedd yn aml yn golygu fel grŵp eu bod yn cyflawni mwy, ac i safon well, na phe baent wedi cael eu talu ar sail unigol. Yn yr un modd, roedd monitro gan eu cymheiriaid yn ffordd llawer mwy effeithiol o werthuso na rhywun o'r tu allan, fel yr amlinellwyd mewn trafodaethau cynharach o'r gwaith Enfys.

Un pwynt olaf i'w nodi, o ran gwaith amgylcheddol y grŵp, oedd eu bod yn gallu gwneud cynlluniau yn unigol. Er y gallai fod yn ddymunol o safbwynt cadwraeth ar raddfa tirwedd a lliniaru llifogydd i'r ffermwyr gydweithio, i gynllunio ar draws y dalgylch (Franks ac Emery 2013; Pagella 2011), roedd y grŵp yn awyddus i bwysleisio'r angen i gadw rheolaeth dros eu ffermydd eu hunain ac yn yr un modd y byddent yn gwybod beth sydd orau ar gyfer eu tir eu hunain.

“Penderfynodd pawb beth roedden nhw ei eisiau eu hunain. Na, ni allech chi fynd at rywun arall a dweud wrtho ble rwyd ti eisiau rhoi'r berth yn y fan yna, byddai hynny'n wallgof, wel byddai hynny'n gwbl haerllug yn fy nhyb i. Pe bai rhywun yn dod ataf i ac yn dweud, o mae'n rhaid i ti roi un yn y fan yna, na dim diolch.”

Awgrymwyd hefyd efallai nad oedd y grŵp yn ddigon cyfforddus fel grŵp i gynllunio ar raddfa fwy ar ddechrau'r broses. Gan eu bod wedi dod i ymddiried yn ei gilydd mwy yn ystod y prosiect, ac wedi dod yn fwy cyfforddus â'r math o waith amgylcheddol dan sylw, ceir mwy o botensial iddynt gymryd rhan mewn cynllunio ar lefel dalgylch bellach (gweler hefyd Pagella 2011). Fodd bynnag, maent yn dal i fod yn wylidwyrus o'r syniad. Mae'n ymddangos bod hyn, ar y cyfan, am y rhesymau gwreiddiol a amlinellwyd (a nodir uchod). Ond er nad ydynt wedi eu hargyhoeddi o hyd gan agendâu allanol ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth, gan nodi bod eu sail

wybodaeth eu hunain yn fwy priodol a thrylwyr, maent yn cydnabod y wybodaeth hydrolegol a sicrhawyd drwy'r prosiect. Felly, gallai fod potensial i gynllunio gwaith amgylcheddol gyda nhw yn y maes hwn yn y dyfodol. Ac eto fel mae Pagella (2011) hefyd yn ei nodi, er mwyn gwneud y math hwn o waith tirwedd, byddai'n hanfodol sicrhau diogelwch ariannol hirdymor ar gyfer gwneud gwaith amgylcheddol a allai gael effaith andwyol ar nodau cynhyrchu fel arall (gweler hefyd Wynne-Jones 2013b).

“Y ffordd roedden nhw [yr ymchwilwyr] yn gweld sut mae'r dŵr yn mynd drwy'r tir pan fydd y perthi gennych chi, mae'n ei arafu'n sylweddol iawn... ac mae'r coridorau yma o linellau coed gennym nawr... ond ni allwch chi blannu coed ym mhobman neu ni fyddai gennym unrhyw dir pori. Nid yw'r coed yn talu'r biliau.”

Mynegodd y grŵp bryderon hefyd am effeithiolrwydd plannu coed ar eu tir fel ateb 'datrys popeth' i broblemau llifogydd, a phwysleisiodd y byddai'n rhaid i beth bynnag y maent yn ei wneud ar eu tir weithio ochr yn ochr â strategaethau rheoli ehangach ar draws y dalgylch, gan gynnwys amrywiaeth o bartneriaid. Yn hyn o beth, mae'n eglur y bydd ymgysylltu ffermwyr â'r ddarpariaeth o wasanaethau ecosystem ar lefel tirwedd yn golygu cyfnewid gwybodaeth pellach am wyddoniaeth a chanlyniadau rhagnodiadau rheoli penodol, yn ogystal â chymhellion economaidd priodol.

4.5: Effaith Gweithgareddau Ymchwil a Datblygu

Un o'r prif resymau am y gymeradwyaeth ehangach o Brosiect Pontbren fu effaith plannu'r coed ar hydroleg tirwedd a'r diddordeb gwyddonol uchel ei broffil dilynol yn y prosiect. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio na chynlluniwyd y prosiect yn y lle cyntaf ar gyfer rheoli llifogydd neu ansawdd dŵr, nac fel prosiect ymchwil yn wir. Mae'r agweddau hyn wedi bod yn ategol i'r prif amcan o ddarparu lloches i'r da byw, fel ffordd o gefnogi systemau ffermio mwy cynaliadwy. Serch hynny, mae'r ffermwyr wedi croesawu'r agweddau hyn ar y prosiect sydd wedi dod i'r amlwg ac wedi hwyluso mynediad i nifer fawr o ymchwilwyr ac ymwelwyr cysylltiedig â safle'r prosiect.

Yn gyffredinol, roedd y ffermwyr yn teimlo bod y gwaith ymchwil yn fuddiol ac yn ddiddorol, ond nodwyd ganddynt nad oedd yr effeithiau hydrolegol yn effeithio arnyn nhw na'u systemau ffermio yn uniongyrchol. O'r herwydd, nodwyd ganddynt mai prif fantais y gwaith hwn oedd y gydnabyddiaeth a'r cyhoeddusrwydd ehangach yr oedd yn eu cynnig iddynt fel grŵp. Yn benodol, awgrymwyd eu bod yn annhebygol y byddai ganddynt broffil mor fawr heb y gwaith ymchwil a wnaed ar y safle. Yn yr un modd, teimlwyd bod y canfyddiadau ymchwil yn cynnig mwy o hygrdedd i'r gwaith plannu a wnaed, o ystyried y manteision lluosog a wireddwyd i amrywiaeth o gynulleidfaoedd bellach.

O ran y broses ymchwil, roedd gan rai ffermwyr lefelau uwch o ymgysylltiad ag ymchwilwyr nag eraill gan fod y gwaith ymchwil yn cael ei wneud ar eu tir nhw, a / neu roeddent yn darparu llety i'r ymchwilwyr. Ond cymerodd yr holl ffermwyr ran mewn cyfarfodydd grŵp a sesiynau adborth rheolaidd gyda'r ymchwilwyr, a werthfawrogwyd yn eang gan y ddau barti. Ystyriwyd bod y broses gyfnewid hon yn elfen bwysig o'r prosiect o ran y ffermwyr yn datblygu mwy o hyder ac ymwybyddiaeth gymdeithasol. Bu'r ffaith iddynt gymryd rhan yn y broses ymchwil yn bwysig i'r ymchwilwyr hefyd, gan fod y ddau barti wedi dysgu yn ystod y gwaith bod gwybodaeth y ddwy ochr yn ategu a chynyddu'r cynhyrchiad gwybodaeth cyffredinol. O'r herwydd, profwyd yr angen am y newid i arfer ymchwil cyfranogol sy'n digwydd ar draws y byd academaidd gan Brosiect Pontbren¹⁴.

Wrth edrych i'r dyfodol, roedd nifer o aelodau'r grŵp yn teimlo y byddai o fudd pe gallai'r gwaith ymchwil barhau ar y safle, gan y deallwyd bod angen gwaith monitro pellach o hyd ac roedd ymweliadau astudio â'r safle yn dal i gael eu cynnal yn rheolaidd gan nifer o wahanol grwpiau. Yn hyn o beth, roedd potensial ffermydd Pontbren fel safleoedd arddangos ar gyfer amrywiaeth o fuddiannau (o amaethyddiaeth i fodelu a dadansoddi hydrolegol) yn amlwg ac fe'i hystyrir yn llwybr pwysig ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

O ran gwaith ymchwil a datblygu arall yr amlygwyd y ffermwyr iddo ac y cymerasant ran ynddo, nodwyd bod yr arbrofi gyda sglodion coed fel sarnau yn arbennig o ddefnyddiol ac y byddai'n cael ei ddefnyddio'n ehangach gan rai o'r ffermwyr pe bai'r cyfle ar gael. Fel y nododd y gwaith ymchwil ehangach a wnaed ar y cynnyrch hwn,

¹⁴ Nodir gwybodaeth ac enghreifftiau penodol o'r croesffrwythloni hwn o safbwyntiau yn fwy manwl yn Pagella 2011.

roedd nifer o gyfyngiadau i'r defnydd o sglodion coed, gan fod angen mannau storio mawr i sychu'r deunydd (HCC 2008). Fodd bynnag, pe bai'r meini prawf sychder yn cael eu bodloni, ystyriwyd ei fod yn gynnyrch da iawn ac yn arbennig o lwyddiannus fel compost i'r blanhigfa goed (ar ôl iddo gael ei gompostio ar ôl ei ddefnyddio fel sarnau). O ran defnydd o'r sarnau sglodion coed yn y dyfodol, roedd rhai ffermwyr yn teimlo mai eu prif fantais oedd y rhagluniaeth a'r economi lleol o ddefnyddio pren gwastraff o'r fferm. Roedd rhanddeiliaid eraill yn teimlo bod angen datblygu cadwyn gyflenwi fwy effeithiol a allai gystadlu gyda gwellt o ran pris. Cefnogwyd y ddadl olaf hon gan nifer o ffermwyr a ddywedodd y byddent yn hapus i barhau i ddefnyddio sglodion coed pe gallent gael gafael arnynt mor rhwydd ac mor rhad ag y gallent gyda gwellt. O ran etifeddiaeth defnyddio'r deunydd hwn, mae'n bwysig nodi manteision ei ddefnyddio fel compost hynod ffrwythlon (ar gyfer coed ac yna llyisiau), gan ddangos enghraifft bwysig arall o agwedd aml-swyddogaeth o fewn prosiect Pontbren.

4.6: Effaith Polisi

Yng ngoleuni'r manteision a sicrhawyd ym Mhontbren, mae'r ffermwyr wedi bod yn awyddus i gyfathrebu eu profiadau ac i sicrhau y caiff defnyddiau polisi eu datblygu. Yn yr adran hon, rydym yn myfyrio ar y cyfraniad y mae'r ffermwyr yn credu y maent wedi ei wneud at ddatblygiad polisi LIC, ac yn amlinellu gwersi a ddysgwyd o brosiect Pontbren ar gyfer y diwygiadau i'r PAC a'r RhDG sydd ar fin cael eu gwneud.

Yn y lle cyntaf, mae'n eglur bod y ffermwyr a'r rhai a oedd yn ymwneud â Phrosiect Pontbren wedi bod yn rhwystredig nad yw eu harloesiadau wedi cael eu hefelychu'n ehangach, ac maent yn pryderu'n arbennig nad yw cynlluniau amaeth-amgylchedd wedi cael eu defnyddio neu eu cynllunio'n ddigon effeithiol i hybu gweithgarwch tebyg mewn mannau eraill. Er bod y prosiect hwn wedi gweld lefelau uchel o ymwelwyr ac wedi bod yn destun adroddiadau fel astudiaeth achos mewn darnau academaidd niferus, mae'r ffermwyr yn pryderu nad yw'r gwersi polisi wedi cael eu dysgu eto¹⁵. Yn yr un modd, er bod gweinidogion wedi ymweld â nhw ac iddynt gael eu hymgyngori yn natblygiad cynllun Glastir, roeddent yn awyddus i bwysleisio na wrandawyd ar eu negeseuon.

“os oedden nhw'n meddwl bod Glastir yn mynd i gael ei seilio ar Bontbren yna nid wyf yn credu bod unrhyw un wedi gwrandao...”

“Dyna un o'r pethau sy'n mynd ar fy nerfau, wyddoch chi, i fod yn blaen: rydych chi'n siarad â [pobl sy'n ymweld] ac maen nhw yno ac yn cytuno'n llwyr â chi, ond mae'n ymddangos eu bod nhw'n anghofio amdanoch chi ar ôl iddyn nhw fynd allan drwy'r gât – dyna yw'r teimlad, efallai nad yw hynny'n wir, ond nid ydych chi'n gweld unrhyw adborth. Weithiau rydych chi'n meddwl, wel, pam na wnaiff rhywun ysgrifennu a dweud bod yr hyn rydych chi wedi ei ddweud o ddi-ddordeb a'n bod yn ei ddilyn ac yn cael trafferth gyda phroblem benodol, ond nid ydych chi'n cael unrhyw beth yn ôl.”

O'r profiadau o blannu coetir a pherthi, ceir rhai negeseuon gweddol syml y gellid eu cyfleu ar unwaith o ran addasiadau syml i gynllun / manylebau cynlluniau presennol; rhestrir y rhain isod. Mae profiadau'r ffermwyr hefyd yn cynnig rhai negeseuon ehangach. Eu pwynt cryfaf a ailadroddwyd fwyaf oedd y dylid cadw pethau'n syml.

“Dim ond gwneud popeth mor syml â phosibl, rwy'n credu, gan mai dyna wnaeth i'r prosiect hwn weithio.”

“Roedd y cynllun ailwampio perthi blaenorol mor syml ag y gallech chi ei gael - roedd y ffermwr a'ch swyddog lleol yn llunio'r cynllun, yn cael cymeradwyaeth iddo, rydych chi'n gwneud y gwaith ac yn derbyn y taliad ar ôl arolygiad bach. Syml - ond mae'n rhaid i bopeth gael ei glymu gyda chymhlethdodau diangen y dyddiau yma cyn belled ag y gallaf i ei weld.”

¹⁵ Ni wnaed gwaith ymchwil ar y farn ehangach ar Brosiect Pontbren ymhlith y gymuned ffermio. Er bod llawer o ffermwyr wedi ymweld â'r safle, dim ond tystiolaeth anecdotaidd sydd o'u hymateb i'r prosiect.

Er y bu rhywfaint o gydnabyddiaeth o'r rhesymeg y tu ôl i fodolau cynlluniau cyfredol, pwysleisiwyd yn barhaus ganddynt yr angen am hyblygrwydd er mwyn sicrhau bod rheolaeth yn briodol i'r fferm. Er yr ystyriwyd bod manylebau cynlluniau yn briodol yn gyffredinol, ni ystyriwyd bod eu cymhwysiad anhyblyg yn briodol. Er enghraifft, fel y nodwyd yn flaenorol, mae gwasgaru crydau porthiant yn amlwg yn weithgaredd llesol, ond mae pa mor briodol ydyw mewn gwahanol ardaloedd yn dibynnu ar y math o bridd a thopograffi.

Mae'r profiad ym Mhontbren yn dangos y potensial ar gyfer gadael i ffermwyr gymryd mwy o reolaeth a chyfrifoldeb am gynllunio, gweithredu a monitro rheolaeth amgylcheddol. Er bod pryder bob amser efallai na fydd eraill mor ddiwyd neu ddibynadwy, mae eu profiad yn awgrymu bod cymryd cyfran fwy a bod â mwy o annibyniaeth yn hanfodol (gweler hefyd CCRI 2008; Wynne-Jones et al. 2013).

Mae hefyd yn bwysig pwysleisio'r manteision a sicrhawyd yma trwy gefnogi prosiect yr oedd risgiau'n gysylltiedig ag ef. Yn benodol, pwysleisiodd Colin Keyse (Rheolwr Rhaglen Cronfa Enfys) na wnaed y penderfyniad hwn ar chwarae bach, ond o ystyried y manteision cymunedol posibl a ragwelwyd, roedd yn teimlo ei bod yn bwysig cefnogi'r prosiect:

“Achosodd y penderfyniad anarferol ond pwrpasol gan banel Enfys i ganiatáu i'r grŵp cymunedol reoli eu gwariant a'u hadroddiadau eu hunain rywfaint o nerfuswydd ar y pryd - ond trwy ddangos bod y cyllidwr yn deall cymhellion cymhleth y grŵp, ac ymddiried bod y risgiau wedi eu rhannu rhwng y gymuned a phwrs y wlad, gweithiodd yn dda ac mae wedi - fel catalydd effeithiol - ad-dalu'r buddsoddiad llawer gwaith drosodd” (Colin Keyse, CGGC)

O'r herwydd, roedd yn awyddus i bwysleisio bod angen i ni gymryd risgiau er mwyn galluogi arloesedd, cyn belled ag y bo dulliau ar waith i ddysgu'r gwersi. Ar hyn o bryd, ceir tystiolaeth ehangach nad yw gwersi'n cael eu rhannu, ac nid yw hynny'n cefnogi diwylliant o arloesedd (AWC 2013); ac yn enwedig gyda Phontbren, ceir synnwyr cryf nad yw eu harfer da wedi teithio'n dda¹⁶.

Gan ddychwelyd at y cwestiwn o ddyluniad a chymhellion y cynllun, mae'n bwysig pwysleisio bod llwyddiant Pontbren o ganlyniad i fwy na chymhellion ariannol yn unig. Roedd angen taliadau priodol yn amlwg, ond pwysleisiodd y rhai a gymerodd ran yn y prosiect bod angen i lunwyr polisi symud oddi wrth y syniad anghywir y bydd ffermwyr yn gwneud rhywbeth os gwnewch chi eu talu; mae'n fwy cymhleth na hynny, ac mae'r meddylfryd hwn wedi cael y cynlluniau presennol i sefyllfa wael. Yn bwysicaf oll efallai, mae angen dylunio cynlluniau gyda'r ddealltwriaeth ei bod yn anodd argyhoeddi ffermwyr am fanylebau sy'n gwrthdaro â 'ffermio cynhyrchiol'. Felly, mae angen i gynlluniau weithio gyda safbwynt a blaenoriaethau'r tîrfeddiannwr, yn ogystal ag ymateb i wybodaeth y tîrfeddiannwr am y tir.

Mae'n bwysig cydnabod cylchoedd amser ffermydd wrth ddylunio cynlluniau ond, yn aml, nid yw gweinyddiaeth ariannol yn cymryd hyn i ystyriaeth ac yn cyflwyno

¹⁶ Sylw oedd hwn a gofnodwyd yn sesiwn lawn digwyddiad rhanddeiliaid yn gwerthuso profiadau o drosglwyddo gwybodaeth ac arloesedd ledled Cymru (AWC 2013).

terfynau amser ar adegau prysur ac anodd. Mae angen safbwynt realistig hefyd o faint o waith y gellir ei wneud dros gyfnodau cynlluniau a phryd mae'n briodol. Yn gysylltiedig â'r pwynt hwn, mae angen i gyllidebu fod yn ymarferol a'i wneud ar gael dros gyfnod synhwyrol o amser, mae hyn oherwydd y gall plannu coed a gwaith cyfalaf cysylltiedig gymryd llawer o waith ac effeithio ar gydbwysedd y busnes os gwneir gormod ar unwaith.

Un pwynt olaf a wnaethpwyd gan y ffermwyr ar sawl achlysur oedd yr angen am gynlluniau â pharhad. Byddai hyn yn golygu nad oes unrhyw newidiadau radical yn yr agenda rhwng cynlluniau ond, ar lefel fwy ymarferol, byddai'n golygu bod y ffermwyr yn gwybod y gallant gynllunio ar gyfer y dyfodol, gan fod y sicrwydd ganddynt o wybod y byddant yn gallu dod yn ôl am fwy o gyllid i gefnogi gwaith rheoli perthi a phlannu pellach yn y blynyddoedd nesaf. Mae hwn yn bwynt bwysig iawn ar yr adeg hon yn y prosiect gan fod angen cynnal a chadw'r gwaith maen nhw wedi ei wneud hyd yn hyn er mwyn sicrhau bod y manteision yn parhau.

Cynlluniau Coetir

O ran manylebau plannu coed yn y cynlluniau cyfredol, gwnaed yr argymhellion canlynol gan y ffermwyr ac fe'u cefnogir gan Coed Cadw a Coed Cymru:

Nid yw meddwl am orchudd coed o safbwynt coedwigaeth traddodiadol yn arwain at y math o drefniadau gofodol sydd eu hangen i integreiddio coed i systemau ffermio mewn ffyrdd sydd o fudd i'r fferm a gwasanaethau ecosystem. O ran cynlluniau cyfredol, er bod Elfen Glastir Sylfaenol yn cynnwys opsiwn i greu lleiniau cysylltedd, er enghraifft, mae'n ymddangos bod gofynion manwl y cynllun ar lefel fferm gyfan yn rhy feichus i lawer o ffermwyr, â'r canlyniad bod llai wedi gwneud cais nag y gobeithiwyd. Er bod cyllid ar gael ar gyfer plannu coed a chreu coetir trwy Grant Creu Coetir Glastir, mae'r cynllun hwn yn cynnwys gofynion sy'n ei wneud yn anaddas neu'n anneniadol i lawer o ffermwyr a fyddai â diddordeb fel arall. Mae hyn oherwydd:

- Bod yn rhaid i leiniau lloches fod o leiaf 12 metr o led fel rheol. Er y gall lleiniau mwy llydan gynnig mwy o fanteision, maent hefyd yn cymryd mwy o dir pori oddi wrth ffermwyr ac felly ystyrir eu bod yn llai deniadol i ffermwyr. Mae lleiniau culach yn dal i gynnig manteision sylweddol.
- Mae'r profiad ym Mhontbren yn awgrymu bod y gymysgedd rhywogaethau fwyaf addas ar gyfer lleiniau lloches yn cynnwys o leiaf 40% o lwyni, er mwyn sicrhau y darperir cymaint o loches ac ymdreiddiad dŵr i'r pridd â phosibl. Ac eto dim ond 20% o lwyni prenaidd y mae Glastir - Creu Coetir yn ei ganiatáu yn y gymysgedd.
- Mae Glastir – Creu Coetir fel rheol yn ei gwneud yn ofynnol i blannu o leiaf 0.25 hectar, ac rydym yn deall y bydd hyn yn codi i 0.5 hectar. Mae llawer o'r cyfleoedd ar ffermydd yn llai na hyn, ond gallant wneud cyfraniad sylweddol at orchudd coed gyda'i gilydd.
- Yn aml, mae lleiniau lloches yn golygu plannu llawer mwy dwys na'r blociau mwy o goetir y lluniwyd Cynllun Creu Coetir Glastir ar eu cyfer.
- Mae angen gwneud llawer iawn o waith cynnal a chadw ar ardaloedd sydd newydd eu plannu yn ystod y flwyddyn neu ddwy gyntaf. Un opsiwn ar gyfer

ardaloedd plannu bach fyddai cymryd gallu ffermwyr i gynnal a chadw'r gwaith plannu yn ystod misoedd prysur yr haf i ystyriaeth.

Oherwydd y gwahaniaethau yn y math o blannu a wneir o safonau coedwigaeth, ni chyfrifwyd yn llawn y grantiau coetir a oedd ar gael ar yr adeg roedd y ffermwyr yn datblygu'r prosiect (FWPS) i gydnabod costau ffensys fel cyfran o gyfanswm y costau. Dyma pam y talwyd swm atodol i ffermwyr Pontbren yn ychwanegol i'w Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd. Mae'r cynlluniau mwy diweddar (Coetiroedd Gwell i Gymru a Glastir - Rheoli Coetir) wedi darparu cyfraddau gwell na'r FWPS, ond mae'n eglur bod angen llawer o ffensys ar gyfer y gwaith a wneir ym Mhontbren ac mae angen i daliadau dalu am hyn.

Un thema bwysig yn yr holl argymhellion uchod yw'r angen am gynlluniau syml i gyflwyno ffermwyr i blannu coetiroedd, nad ydynt yn gofyn am ymrwymiad beichus. Gan ymateb i'r angen hwn, hoffai Coed Cymru a Coed Cadw lansio cynllun grantiau bach, gan adeiladu ar lwyddiannau Pontbren a'r cynllun 'Camau Cyntaf' cynharach (gweler Coed Cymru 2007; 2013).

Fodd bynnag, mae'r ffermwyr yn awyddus i bwysleisio bod angen i unrhyw ddiwygiadau i gynlluniau ystyried y darlun ehangach. O'r herwydd, er y byddai mwy o gynlluniau coetir priodol yn beth da, maent yn ystyried mai prif swyddogaeth plannu coed (gan ffermwyr) yw fel ffordd o gefnogi hwsmonaeth fferm dda, lle ystyrir cynhyrchu bwyd fel elfen graidd o fusnesau fferm. Ac nid ydynt eisiau gweld llwyddiant Pontbren yn cael ei herwgiu fel ffordd o hyrwyddo targedau uchel eu proffil ar gyfer plannu coed yng Nghymru. Y flaenoriaeth iddyn nhw yw cyflwyno cynlluniau/cymhorthion i gefnogi'r nod ehangach o arfer fferm gwydn, y maent yn pryderu y gallai gael ei anghofio neu ei roi o'r neilltu yn y rhuthr i gefnogi plannu coed ar gyfer blaenoriaethau storio carbon neu hydrolegol (gweler Wynne-Jones 2013a).

Taliadau ar gyfer Gwasanaethau Ecosystem

Gan fod taliadau cynlluniau amaeth-amgylchedd a grantiau coetir cyfredol yn seiliedig ar gostau rhagweledig (incwm rhagweledig) plannu, maent yn tanbriso gwerth llawn plannu. Nid ydynt yn daliadau sy'n adlewyrchu gwerth manteision y plannu. Hefyd, gan eu bod yn adlewyrchu costau gweithrediad ar sail set o reolau wedi eu pennu ymlaen llaw, sy'n dibynnu ar gyfartaleddau cenedlaethol, nid ydynt bob amser yn talu'r costau gwirioneddol mewn ardaloedd penodol. O'r herwydd, nid oes cymhelliad ariannol eglur i ffermwyr¹⁷.

Mae pryderon gyda'r cyfyngiadau ar daliadau yn seiliedig ar incwm rhagweledig bellach yn eang y tu hwnt i Bontbren (Burton a Schwarz 2013; Schwarz et al 2008; Wynne-Jones et al. 2013). O'r herwydd, awgrymir bod angen i daliadau adlewyrchu gwerth y manteision yn well, yn hytrach na'r gost weithredu. Er mwyn gwneud hyn, awgrymodd y rhanddeiliaid o'r asiantaethau a oedd yn ymwneud â Phontbren

¹⁷ Mae'r problemau hyn wedi eu trafod yn drylwyr yn y llenyddiaeth (fel y nodir yn y testun) ac maent hefyd wedi cael eu cydnabod gan aelodau staff Llywodraeth Cymru yn yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Er enghraifft, gwnaeth Kevin Austin gyflwyniad at y thema hon i Gymdeithas Stapleton Prifysgol Aberystwyth yn ystod 2013.

(gweler yr atodiadau ar gyfer rhestr o gyfweleion) y gallai rhywfaint o gyllid ddod o ffynonellau preifat neu ffyrdd mwy newydd o ariannu, ond mae angen i rywfaint ddod gan y llywodraeth hefyd. Dadleuodd y rhanddeiliaid hyn y dylai'r llywodraeth fod yn defnyddio ei phwerau i gywiro methiant y farchnad lle ceir mantais eglur i'r cyhoedd, sy'n fwy na'r gost weithredu. Maent yn dweud bod y dull 'talu cyn lleied â phosibl' yn methu â sicrhau gweithgarwch ar lefel ac mewn ffordd sy'n cyflawni'r fantais i'r cyhoedd sydd ei hangen. Cefnogir y safbwynt hwn hefyd gan ddadansoddiadau o gynlluniau amaeth-amgylchedd sy'n cwestiynu'r ychwanegolrwydd a sicheir gan y dulliau talu cyfredol (AWC 2007).

O ran cyllid preifat, ceir nifer o enghreifftiau o hyn yn digwydd ledled y DU bellach, gyda chwmnïau dŵr yn arbennig yn dangos diddordeb mewn ariannu ffermwyr i reoli er mwyn gwella ansawdd dŵr¹⁸. Ceir posibilrwydd hefyd i gwmnïau yswiriant gymryd mwy o ran lle mae llifogydd i lawr yr afon yn bryder. Nid ffermwyr Pontbren yw'r unig grŵp a allai fanteisio o drefniadau ariannu o'r fath, ac mae grwpiau eraill, gan gynnwys Menter Mynyddoedd Cambria, wedi bod yn ystyried yr opsiynau hyn hefyd. Gellid hefyd sicrhau manteision trwy ddefnyddio biomas o bren gwastraff sy'n dod trwy raglenni rheoli. Arbrotodd grŵp Pontbren gyda sglodion coed ar gyfer sarnau, ond ceir cyfleoedd hefyd ar gyfer gwresogi biomas a allai gynnig manteision cymunedol ehangach.

Un pwynt pwysig i'w nodi yw bod y dulliau polisi a chymhelliant cyfredol (fel y Fenter Ynni Adnewyddadwy a Thystysgrifau Ymrwymo i Ynni Adnewyddadwy) wedi ei gwneud yn anoddach i ddulliau cyflenwi lleol ddatblygu momentwm, gan fod sglodion coed yn cael eu hanfon i orsafoedd pŵer mawr. Y model amgen pe bai cyflenwad lleol yn cael ei flaenoriaethau yw y gellid defnyddio sglodion coed fel sarnau ac yna eu compostio i ddarparu cyfrwng tyfu i goed neu lysiau. Caiff manteision y cynnyrch eu lluosu a'u sefydlogi o fewn y gymuned wedyn (NEF 2002). Mae'r mathau hyn o syniadau o bosibl yn hanfodol i wydnwch cymunedau gwledig, lle nad yw ymdrechion i farchnata un cynnyrch gwerth ychwanegol wedi bod yn llwyddiannus ond mae nifer o drafodion graddfa fach ac aml-swyddogaeth *wedi* cryfhau a chynnal y ffurfiau amrywiol o gyfalaf sy'n bresennol (gweler e.e. Wilson 2012; Bristow 2010).

Hwyluso Grŵp

Fel y mae trafodaeth adrannau cynharach wedi ei bwysleisio, mae deinameg y grŵp wedi bod yn hanfodol i lwyddiant y prosiect. O ystyried hyn yng nghyswllt diwygiadau i'r PAC a'r RhDG yn y dyfodol, mae'n amlwg felly bod darpariaeth ar gyfer gwaith grŵp yn cael ei datblygu. Mae profiadau Pontbren yn awgrymu bod angen i raddfa a natur gweithredu cydweithredol weithio gyda rhwydweithiau cymdeithasol ac, fel y cyfryw, bod yn ystyrlon i'r rhai sy'n cymryd rhan.

Mae angen i wasanaethau cyngor a hwyluso priodol fod ar gael ar gyfer gwaith grŵp o'r fath. Er enghraifft, yn ogystal â sicrhau'r ffynonellau arferol o incwm grant a chynhyrchu cynlluniau ar raddfa fferm, mae angen cefnogaeth ar gyfer rhedeg

¹⁸ Mentrau a redir gan South West Water er enghraifft
<https://www.southwestwater.co.uk/index.cfm?articleid=8329> [defnyddiwyd ddiwethaf ar 24/2/14].

trefniadau cydweithredol. Er mwyn gwireddu'r cyfle o sicrhau cyllid ar gyfer gwasanaethau ecosystem, mae'n rhaid bod y gallu gan y rhai sy'n rheoli'r tir i gytuno ac ymdrin â thaliadau o'r fath. Mae'n ymddangos bod trefniadau cydweithredol yn fwy tebygol o gyflawni'r diben hwnnw, ond maent y tu hwnt i allu'r rhan fwyaf o fusnesau ffermio heb gefnogaeth.

Pwynt arall a gydnabyddir yn eang bellach yw'r angen am wybodaeth ddealedig (Blackstock et al. 2007; AWC 2013); er enghraifft, mae arbenigedd amgylcheddol Coed Cymru wedi bod yn bwysig, ond felly hefyd y mae gallu aelodau staff Coed Cymru i weithio gyda blaenoriaethau'r ffermwyr ac ennill eu hymddiriedaeth. Mae'r argymhellion gan y CCRI (2008), y dylai grwpiau allu penodi eu cydgysylltwyr eu hunain a chael cyllid i ariannu hyn yn rhan o grantiau ehangach, yn arbennig o nodedig yn hyn o beth ac adleisiwyd hyn gan aelodau staff asiantaeth a oedd wedi gweithio gyda'r ffermwyr. Yn fwy diweddar, mae llwyddiant Swyddogion Datblygu Tir Comin gyda Glastir – Tir Comin (CCRI 2012) unwaith eto'n atgyfnerthu pwysigrwydd swyddogaeth yr hwyluswyr. Un pwynt olaf yw bod gwahanol flaenoriaethau o fewn y grŵp, wrth i wahanol bobl ddod at ei gilydd dros wahanol bethau. Dawn hwylusydd, felly, yw pwysleisio'r agweddau sy'n gorgyffwrdd a'r synergeddau i symud prosiect yn ei flaen.

ADRAN 5: CASGLIADAU

Yn yr adran olaf hon, caiff yr adborth mwy manwl yn adran 4 ei dynnu at ei gilydd i grynhoi'r gwersi allweddol a ddysgwyd a chynnig awgrymiadau ar gyfer yr hyn y gallai'r grŵp ei wneud nesaf. Yn gyffredinol, mae Prosiect Pontbren wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn i'r ffermwyr a gymerodd ran, gan eu hamlygu i syniadau ac arferion newydd a chreu cyfleoedd sylweddol iddynt ddatblygu arloesiadau yn eu busnesau fferm. O ganlyniad i'r gwaith amgylcheddol y maen nhw wedi ei wneud, sicrhawyd nifer o fanteision i amrywiaeth o fuddiolwyr y tu hwnt i'r ffermydd hefyd. Er eu bod wedi cael rhai siomedigaethau, mae eu llwyddiannau wedi bod cymaint fel ei bod yn bwysig myfyrio ar sut y gellir cefnogi ffermwyr eraill i ddatblygu prosiectau tebyg.

- Yn y lle cyntaf, mae'n bwysig ail-bwysleisio nad oes unrhyw gynlluniau sy'n bodoli eisoes wedi eu galluogi i wneud yr hyn roeddent yn dymuno ei wneud, a dyma pam y gwnaethant droi at yr opsiwn o gyllid loteri (Enfys). Nodir negeseuon manwl ar eu pryderon â'r cynlluniau yn Adran 4.6 'Effeithiau Polisi' yr adroddiad llawn; gellir crynhoi'r rhain yn neges gryfaf y ffermwyr: i gadw cynlluniau fferm yn syml.
- Mae'r ffermwyr yn teimlo eu bod wedi cynhyrchu allbynnau mwy buddiol trwy'r gwaith a ariannwyd gan Enfys nag y maent yn ei weld yn cael ei gyflawni gan gynlluniau amaeth-amgylchedd safonol. Cefnogwyd y safbwynt hwn o 'ychwanegolrwydd' cynlluniau eraill gan werthusiadau swyddogol (Swyddfa Archwilio Cymru 2007).
- Ni fyddai'r ffermwyr wedi bod yn barod i wneud y gwaith hwn heb yr hyblygrwydd a'r annibyniaeth a roddwyd iddynt gan grant Enfys a chyllid LIC. Roedd eu rheolaeth dros y prosiect, ac yn enwedig y gallu i gynllunio gwaith amgylcheddol y tybiwyd ei fod yn briodol i'w systemau ffermio yn hytrach na dilyn templed cynllun a gynlluniwyd ymlaen llaw, yn ffactorau allweddol yn eu llwyddiant.
- Mae dymuniad ffermwyr am annibyniaeth a'u rhwystredigaeth gyda beichiau gweinyddol a rheoliadol yn adnabyddus fel rhesymau am eu diffyg ymgysylltiad â chynlluniau amaeth-amgylchedd (AWC 2012). Gall hyn gynnwys materion o amseru a fframweithiau cyllidebu anhyblyg ar gyfer cynlluniau yn ogystal â phwyntiau cynllunio ehangach (a nodir yn adran 4.6 yr adroddiad llawn). Mae Prosiect Pontbren wedi bod yn llwyddiannus gan ei fod wedi gweithio o gwmpas y problemau hyn.
- Mae'r prosiect wedi gweithio o'r pwynt cychwyn o flaenoriaethau'r ffermwyr, ac wedi cael ei yrru ymlaen gan eu dyheadau. Mae eu cyfrifoldeb am y prosiect wedi sicrhau llawer mwy o gyfranogiad a chydweithrediad na fyddai wedi bod yn wir pe baent wedi cael eu harwain gan asiantau allanol.
- Mae'r ffaith bod manteision lluosog wedi cael eu sicrhau gyda'i gilydd yn dangos ei bod yn bosibl gweithio gyda blaenoriaethau cynhyrchu ffermwyr i gyflawni canlyniadau eraill. Mae angen cydbwysu hyn, ac ni fwriedir iddo awgrymu y dylid ystyried dwysau cynhyrchiad fel prif nod o flaen popeth arall.

Ond mae yn dangos nad yw'n werth gwthio yn erbyn pobl pan fo cyfleoedd i gydweithio ar nodau wedi eu halinio.

- Mae'r ffermwyr wedi dysgu llawer o'r prosiect ac mae eu hagweddau a'u hymddygiad wedi newid mewn rhai meysydd – yn enwedig o ran dwyseddau stocio a'u dealltwriaeth o hydroleg y dalgylch. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd profiad ymarferol a'u rhyngweithio gyda gwyddonwyr yn ystod cyfnod y prosiect. Serch hynny, mae'n amlwg nad yw'r prosiect wedi newid patrymau ymddygiad neu werthoedd cyfredol yn sylfaenol. Yn hytrach, mae wedi cefnogi a galluogi'r ffermwyr i ddatblygu priodweddau a thueddiadau a oedd yn bresennol eisoes.
- Gan fod y prosiect wedi dangos y gall cefnogi ffermwyr greu manteision ehangach, mae grŵp Pontbren o'r farn bod eu hachos yn dystiolaeth bod swyddogaeth adnabyddadwy i ffermio, o fewn yr economi wledig a chymdeithas yn fwy eang, ac y dylent gael eu cefnogi yn y swyddogaeth hon.
- Mae dynameg y grŵp wedi bod yn hanfodol o ran ffurfio cyfalaf cymdeithasol sydd wedi atgyfnerthu brwdfrydedd y ffermwyr tuag at y prosiect, wedi eu cymell i weithio i safonau uchel ac wedi cynnig dull cefnogaeth yn ystod cyfnodau anoddach. Mae'r elfen gymdeithasol hon wedi bod yn allweddol i ddatgloi a lluosu manteision y prosiect.
- Nid yw gweithio mewn mentrau cydweithredol yn gyffredin yn niwylliant ffermio'r DU, ond o gofio'r manteision a sicrhawyd ym Mhontbren, mae angen hyrwyddo gwaith cydweithredol ymhellach i gefnogi dibenion amgylcheddol ac economaidd (Franks ac Emery 2013; CCRI 2008). Ni fydd gweithio cydweithredol yn briodol i bob ffermwr ac ni ddylid ei ystyried fel panacea, ond dylid rhoi mwy o gefnogaeth i'r rhai sy'n barod i gymryd rhan.
- Mae gwaith grŵp yn arbennig o bwysig i sicrhau manteision amgylcheddol ar draws dalgylch ar raddfa tirwedd. Mae manteision tirwedd wedi dod i'r amlwg ym Mhrosiect Pontbren ond ni chawsant eu cynllunio trwy fapio grŵp cydweithredol.
- Mae'r ffermwyr yn dal i fod yn wylidwrus o ran cynllunio lefel dalgylch, ac yn pryderu'n benodol am lyw asiantaethau allanol a fyddai'n annog cyfnewidiadau rhwng canlyniadau amgylcheddol a chynhyrchu. Bydd angen cymhellion priodol a sicrheir dros yr hirdymor er mwyn i reolaeth lefel dalgylch weithio. Hefyd, mae angen cyfnewid ymchwil a gwybodaeth parhaus gyda'r ffermwyr i gynllunio dulliau priodol ar gyfer darparu gwasanaethau ecosystem.
- Mae mynediad at hwyluswyr medrus a dibynadwy yn hanfodol ar gyfer gwaith grŵp llwyddiannus. Fel y mae Keenleyside (2013) hefyd yn ei amlinellu, mae angen i'r aelodau staff cynorthwyol hyn fod ag arbenigedd a dealltwriaeth o faterion ffermio ac amgylcheddol, yn ogystal â bod yn sensitif a hyblyg o ran anghenion ffermwyr. Yn y dyfodol, gallai'r grŵp elwa o ragor o gefnogaeth gyda'u busnesau fferm craidd, gan fod cefnogaeth gynghorol wedi canolbwyntio'n helaeth ar faterion amgylcheddol hyd yn hyn.

- Mae eu profiad gyda marchnata cig yn awgrymu mai nad mentrau cynhyrchu cydweithredol a brandio gwerth ychwanegol yw'r ateb i bawb (gweler hefyd AWC 2012). Er eu bod wedi dysgu o'r profiad, maent yn teimlo yn y pen draw na allant ymddiried mewn archfarchnadoedd ac nad yw gwahaniaethau pŵer a chystadleuaeth o'u plaid yn aml. Yn yr un modd, nid oedd gwerthu i farchnadoedd lleol yn llwyddiannus yn eu hardal oherwydd demograffeg dlotach a oedd yn golygu bod galw am gynnyrch arbenigol yn is. Mae hyn yn codi cwestiynau am yr opsiynau mwyaf effeithiol i'w dewis yn y blynyddoedd nesaf i sicrhau cadwynau cyflenwi gwydn. Mae rhai aelodau o'r grŵp wedi parhau i werthu cynnyrch yn uniongyrchol i sail gwsmeriaid sefydledig, ond mae cost llafur uchel yn gysylltiedig â hyn sydd wedi golygu nad oedd yn briodol i bawb.
- O ran eu systemau ffermio, er bod yr angen am ddwyseddau stocio is a chostau mewnbwn is yn cael ei dderbyn mwy ymhlith y grŵp bellach, mae hefyd yn amlwg eu bod yn teimlo pwysau cynyddol i gynhyrchu bwyd yn dod i'r amlwg unwaith eto. Gan ymateb i'r agendâu newidiol hyn, mae'r ffermwyr yn pwysleisio bod parhad polisi yn fwy hirdymor yn hanfodol er mwyn osgoi negeseuon a chymhellion gwrthgyferbyniol.
- Mae parhad o ran y taliadau sydd ar gael yn bryder mawr ar hyn o bryd, gan fod angen cynnal a chadw'r gwaith maen nhw wedi ei wneud hyd yn hyn er mwyn sicrhau bod y manteision yn parhau.
- O ran y gwaith ymchwil a wnaed ar y safle, ceir llawer o botensial i Bontbren barhau i weithio fel safle arddangos. Nodir yr angen am waith ymchwil mwy cymhwysol fel argymhelliad ehangach (ledled Cymru) ar gyfer y dyfodol hefyd (AWC 2013). Mae prosiect Pontbren yn dangos bod defnydd o agrogoedwigaeth/agro-ecoleg yn fater allweddol i fynd i'r afael ag ef yn hyn o beth.
- Yn olaf, er ei fod yn grŵp unigryw mewn sawl ffordd, mae'n bwysig nodi bod gwersi o enghreifftiau eraill o waith cydweithredol a'r ddarpariaeth o wasanaethau ecosystem yn ategu ac atgfynerthu'r rhai a amlinellir yma (gweler e.e. CCRI 2008; Wynne-Jones 2013; Wynne-Jones et al. 2013).

Cyfeiriadau

Bird, S., Emmett, B., Sinclair, F., Stevens, P., Reynolds, B., Nicholson, S., Jones, T., (2003) Pontbren: Effects of Tree Planting on Agricultural Soils and Their Functions. Final Report. Y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, Prifysgol Bangor, Cymru.

Blackstock, K., Brown, K., Davies, B., a Shannon, P. (2006) Individualism, cooperation and conservation in Scottish farming communities. Yn Rural governance: International perspectives, gol. L Cheshire, V Higgins a G Lawrence, 191-207. Hoboken: Routledge.

Blackstock, K., Slee, B., Brown, K., Dwyer, J., Mills, J., Ingram, J., Taylor, J., Burton, R., Schwarz, G., Matthews, K., a Dille, R. (2007) Good Practice Guide: Influencing environmental behaviour using advice. Adroddiad i Defra gan y Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymunedau a Sefydliad Ymchwil Defnydd Tir Macaulay.

Bristow, G. (2010) Resilient Regions: Replacing regional competitiveness. Cambridge Journal of the Regions 3: 153-167

Burton, R., a Schwarz, G. (2013) Result-orientated agri-environment schemes in Europe and their potential for promoting behavioural change. Land Use Policy 30: 628-641

CCRI (2008) Evaluation of key factors that lead to successful agri-environmental co-operatives. Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru.

CCRI (2012) An Evaluation of the Commons Development Officer Role using a Leader Methodology. Adroddiad i Lywodraeth Cymru.

Coed Cymru (2007) Adroddiad Terfynol Astudiaeth Ddichonoldeb Camau Cyntaf.

Coed Cymru (2013) Cynnig Coed Cymru / Coed Cadw ar gyfer cyllid dan RhDG 2014-2020 Cymru.

Cooperatives UK (2012) The UK co-operative economy 2012: Alternatives to austerity. Yn The UK co-operative economy 2012: Alternatives to austerity. Manceinion: Cooperatives UK Cyf.

Franks, J. ac Emery, S. (2013) Incentivising collaborative conservation: Lessons from existing environmental Stewardship Scheme options. Land Use Policy. 30: 847– 862

HCC (2008) The woodchip for livestock bedding project final report. www.hccmpw.org.uk/publications/farming_industry_development/alternative_bedding_for_livestock/

Henshaw, A.J. (2009) Impacts of land use changes and land management practices on upland catchment sediment dynamics: Pontbren, mid-Wales. Traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Nottingham

Jackson, B., Pagella, T., Sinclair, F., Orellana, B., Henshaw, A., Reynolds, B., McIntyre, N., Wheeler, H., Eycott, A. (2013) Polyscape: A GIS mapping framework providing efficient and spatially explicit landscape-scale valuation of multiple ecosystem services. *Landscape and Urban Planning* 112: 74-88.

Keenleyside, C. (2013) Prosiect Pontbren. Coed Cadw:
<http://www.coedcymru.org.uk/images/user/5472%20Pontbren%20CS%20v12.pdf>

Sefydliad Materion Cymreig, 2012. Tyfu Ein Coetiroedd yng Nghymru. Adroddiad i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.

NEF [New Economics Foundation] (2002) Plugging the Leaks: Making the most of every pound that enters your local economy.

Pagella, T.F. (2011) Approaches for spatially explicit negotiation of impacts of land use change on ecosystem services. Traethawd PhD, Prifysgol Bangor

Resources for Change (2011) Cambrian Mountains Public Engagement on Land and Ecosystem Futures Dyfodol y Cambria-Planning for Change. Adroddiad Science-wise i Grŵp Llywio Menter Mynyddoedd Cambria.

Schwarz, G., Moxey, A., McCracken, D., Huband, S. a Cummins, R. (2008) An analysis of the potential effectiveness of a Payment-by-Results approach to the delivery of environmental public goods and services supplied by agri-environment schemes. Adroddiad i'r Land Use Policy Group, DU.

Slangen, L.H.G., Polman, N.B.P. (2002) The environmental co-operative: a new institutional arrangement. Yn: Hagedorn, K. (Gol.), *Environmental Co-operation and Institutional Change: Theories and Policies for European Agriculture*. Edward Elgar, Cheltenham, DU, tud. 69–90 (Pennod 4).

Solloway, I. (2012) Effects of tree shelterbelts on the hydrology of upland areas. Traethawd PhD Imperial College London

SQW (2011) Evaluation of the Agrigop Management Development Programme. Adroddiad i Lywodraeth Cymru.

Sutherland, Lee-Ann a Rob J. F. Burton (2011) Good Farmers, Good Neighbours? The Role of Cultural Capital in Social Capital Development in a Scottish Farming Community. *Sociologia Ruralis* 51: 238-255. doi: 10.1111/j.1467-9523.2011.00536.x

Sutherland, L.-A., Gabriel, D., Hathaway-Jenkins, L., Pascual, U., Schmutz, U., Rigby, D., Godwin, R., Sait, S.M., Sakrabani, R., Kunin, W.E., Benton, T.G., Stagl, S. (2012) The 'neighbourhood effect': a multidisciplinary assessment of the case for farmer co-ordination in agri-environmental programmes. *Land Use Policy* 29 (3): 502–512.

Swyddfa Archwilio Cymru (2007) Tir Gofal. Archwilydd Cyffredinol Cymru, Caerdydd.

Arsyllfa Wledig Cymru (2012) Penderfyniadau Ffermwyr. Adroddiad i Lywodraeth Cymru <http://www.arsyllfawledigcymru.org.uk/ein-cyhoeddiadau>

Arsyllfa Wledig Cymru (2013) Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesedd yn Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru. Adroddiad i Lywodraeth Cymru

Wheater, H.S., Reynolds, B., McIntyre, N., Marshall, M., Jackson, B., Frogbrook, Z., Solloway, I., Francis, O.J. a Chell, J. (2008) Impacts of upland land management on flood risk: multi-scale modelling methodology and results from the Pontbren experiment. Adroddiad Ymchwil FRMRC UR 16, Imperial College a CEH Bangor.

Wilson, G. (2012) Community resilience, globalization, and transitional pathways of decision-making. *Geoforum* 43: 1218–1231

Wynne-Jones, S. (2013a) Carbon Blinkers and Policy Blindness: The difficulties of 'Growing Our Woodland in Wales'. *Journal of Land Use Policy*. DOI: 10.1016/j.landusepol.2012.10.012

Wynne-Jones, S. (2013b) Ecosystem Service Delivery in Wales: Investigating Farmers Willingness to Participate. *Journal of Environmental Policy and Planning*. DOI:10.1080/1523908X.2013.788443

Wynne-Jones, S., Schwarz, G., Burton, R., (2013) Payment-by-results agri-environmental support for grasslands in Europe: Lessons learnt for future agri-environmental support in Wales. Cofnod Cynhadledd Ffederasiwn Glaswelltiroedd Ewrop

Atodiadau

Cyfweliadau a Gynhaliwyd

Ffermwyr Pontbren (cyfwelwyd yn unigol ac fel grŵp)

Roger ac Eirlys Jukes
Aled a Gwyn Morris
Enid Thomas Jones
Margret Hughes
Daniel Bates
Christopher Cornes
Arwel Rees
Alun Davies
Wyn Williams

Cyfweleion eraill

David Jenkins Coed Cymru
Mike Richards Coed Cymru
Jerry Langford Coed Cadw
Mike Townsend Coed Cadw
Tim Pagella Prifysgol Bangor – Polyscapes
Colin Keyse Rheolwr Rhaglen Enfys CGGC

Trefn y Cyfweiliadau â Ffermwyr Pontbren

Strwythur Busnes a Newid:

- A yw'r prosiect wedi eich helpu i wella ac arallgyfeirio eich incwm? (sut?)

[ystyriwch effeithiau dadstocio; yr ymdrechion i ddatblygu cynnyrch gwerth ychwanegol; y sarnau sglodion coed a'r blanhigfa goed ...]

- A yw prosiect Pontbren wedi cael unrhyw effaith ar 'olyniaeth' yn strwythur eich fferm o ran newidiadau i bennaeth y daliad neu sut y trefnir y ffermydd?

Effeithiau Ymyriadau (ymchwil a chefnogaeth fusnes):

- Trafodwch y rhyngweithio gyda Coed Cymru
- Trafodwch y gweithgarwch ymchwil a datblygu ac unrhyw fanteision ychwanegol i'w ffermydd

[drwy'r Consortiwm Ymchwil Rheoli Perygl Llifogydd: cyflwyniadau a chyswllt rheolaidd gyda'r gymuned ymchwil a datblygu, yn ogystal â modelu tirwedd Polyscapes – Tim Pagella].

- Pa mor werthfawr mae'r achosion hyn o ryngweithio wedi bod?
- A yw eich dealltwriaeth o brosesau amgylcheddol a rheoli perygl llifogydd wedi newid o ganlyniad?
- Trafodwch eich profiadau gydag ymchwil a datblygu sarnau sglodion coed
- A ydych chi'n teimlo eich bod wedi cael budd o'r gwasanaeth Arolwg Busnes Fferm? (sut?)

Newid ymddygiad (dros holl gyfnod y prosiect):

- A ydych chi'n credu bod eich safbwyntiau ac agweddau (tuag at ffermio a rheoli amaeth-amgylchedd) wedi newid dros gyfnod prosiect Pontbren?

- Pam wnaethoch chi ymuno â'r prosiect?
- Pam ydych chi wedi parhau i fod yn rhan o'r prosiect?

- Beth yw eich bwriadau presennol o ran y prosiect?
- Pa ffactorau sy'n effeithio ar eich penderfyniadau cyfredol am y prosiect?

- Beth fu'r ffactorau pwysicaf a ddylanwadodd ar eich penderfyniadau yn ystod cyfnod y prosiect?

[e.e. busnes, teulu, cymdeithasol, dealltwriaeth amgylcheddol, cyd-destun polisi...]

- Beth ydych chi'n ei ystyried yw eich swyddogaeth bersonol (o ran dymameg gyffredinol datblygu'r prosiect) – pam y bu hynny'n wir?

Gwersi a Ddysgwyd:

- Yn gyffredinol, beth ydych chi'n credu fu manteision a phroblemau'r prosiect i chi?
- Pa wersi ydych chi wedi eu dysgu o'r prosiect?
- Pa wersi (allweddol) ydych chi'n credu y dylai eraill eu dysgu o Bontbren?

Effaith Polisi:

- A ydych chi'n credu eich bod wedi gallu gwneud cyfraniad at ddatblygiad polisi Llywodraeth Cymru? (nodwch beth/sut...)
- Pa wersi o'r prosiect ydych chi'n credu y dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â nhw gyda'r prosesau cyfredol o ddiwygio'r PAC a datblygu'r Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf?